Planning Pembrokeshire's Future
Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol
Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

# Cyngor Sir Penfro

# Cynllun Datblygu Lleol – Cynllun Amgen (2017 – 2033)

# Cytundeb Cyflawni

Pedwerydd argraffiad 2024

**Cymeradwywyd gan Gyngor Sir Penfro fel sail ymgynghori 6 Tachwedd 2017**

**Cymeradwywyd gan Gyngor Sir Penfro i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru 10 Mai 2018**

**Cytunwyd gan Lywodraeth Cymru 7 Mehefin 2018**

**Cymeradwywyd y fersiwn diwygiedig gan Gyngor Sir Penfro 8 Hydref 2020**

**Cytunwyd y fersiwn diwygiedig gan Lywodraeth Cymru 30 Hydref 2020**

**Cymeradwywyd y fersiwn diwygiedig pellach gan Gyngor Sir Penfro 11 Mai 2023**

**Cymeradwywyd y fersiwn diwygiedig pellach gan Lywodraeth Cymru 20 Mehefin 2023**

**Cymeradwywyd y pedwerydd argraffiad hwn gan Gyngor Sir Penfro 18fed Gorffennaf 2024**

**Cymeradwywyd y pedwerydd argraffiad hwn gan Lywodraeth Cymru 24ain Gorffennaf 2024**

**Cynnwys**


| *Adran* | *Enw* | *Tudalen* |
|---|---|---|
| | Rhagair | 3 |
| | Crynodeb | 4 |
| 1 | Cyflwyniad | 7 |
| 2 | Amserlen | 16 |
| 3 | Cynllun Cyfranogiad y Gymuned | 28 |
| 4 | Arolygu ac Adolygu | 62 |
| 5 | Cysylltiadau defnyddiol | 64 |
| Atodiad 1 | Profion cadernid | 65 |
| Atodiad 2 | Proffil poblogaeth ac aelwydydd a strwythur diwydiannol | 67 |
| Atodiad 3 | Adnoddau sydd ar gael a pheryglon i'r amserlen | 71 |
| Atodiad 4 | Geirfa | 75 |

**Rhagair**

Roedd y Cytundeb Darparu yn amodol ar gyfnod ymgynghori cyhoeddus ffurfiol rhwng 9 Tachwedd 2017 a 5 Ionawr 2018. Ystyriwyd adroddiad o ymgynghoriadau gan Gabinet Cyngor Sir Penfro ar 19 Mawrth 2018.  Penderfynodd Cyngor Sir Penfro yn y Cyngor Llawn ar 10 Mai 2018 i gyflwyno'r ddogfen yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru.

Ystyriwyd fersiwn diwygiedig, yn nodi amserlen ar gyfer gweddill y broses ac yn adlewyrchu oedi o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 gan Gabinet Cyngor Sir Penfro ar 5 Hydref 2020. Yn y Cyngor Llawn ar 8 Hydref 2020, penderfynodd Cyngor Sir Penfro gyflwyno'r Cytundeb Cyflenwi diwygiedig i Lywodraeth Cymru.

Roedd angen Cytundeb Cyflawni diwygiedig pellach yn dilyn cyhoeddi canllawiau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar lefelau ffosffad ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol yng Nghymru (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021). Yn y Cyngor Llawn ar 9 Rhagfyr 2021, cytunodd Cynghorwyr Cyngor Sir Penfro i nodi oedi i amserlen CDLl 2 a chymeradwyo argymhelliad i ganiatáu i Gytundeb Cyflawni diwygiedig gael ei baratoi sy'n cynnwys dychwelyd i gam y Cynllun Adneuo. Ystyriwyd y Cytundeb Cyflawni diwygiedig pellach hwn gan Gabinet Cyngor Sir Penfro ar 24 Ebrill 2023 a phenderfynodd y Cyngor Llawn ar 11 Mai 2023 i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig pellach i Lywodraeth Cymru.

Roedd angen y pedwerydd argraffiad hwn o'r Cytundeb Cyflawni oherwydd yr oedi yn deillio o'r angen i gwblhau asesiadau hyfywedd cymhleth ar gyfer safleoedd i'w cynnwys yng Nghynllun Adneuo 2, i ganiatáu amser ar gyfer cwblhau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cynllun Adneuo 2, i ddarparu amser i ystyried gwybodaeth bellach a ryddhawyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch ansawdd dŵr afonydd mewn afonydd gwarchodedig (a ddynodwyd yn ardaloedd cadwraeth arbennig (ACA)) yn ardal y Cynllun, afon Cleddau ac afon Teifi, ac i sicrhau bod polisi cadarn yn cael ei roi ar waith ar gyfer darparu llety i sipsiwn, teithwyr a siewmyn teithiol. Ystyriwyd y pedwerydd Argraffiad o'r Cytundeb Cyflawni gan Gabinet Cyngor Sir Penfro ar 20fed Mai 2024 a phenderfynodd y Cyngor Llawn ar 18fed Gorffennaf 2024 i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig pellach hwn i Lywodraeth Cymru.

## Crynodeb

a) Mae'r ddogfen hon – y Cytundeb Cyflawni – yn ddogfen allweddol wrth lunio'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae'n cyflwyno amserlen cynhyrchu'r Cynllun, sut fydd yr Awdurdod yn ymgynghori ar y Cynllun (Cynllun Cyfranogiad y Gymuned) a'r adnoddau y bydd yr Awdurdod yn eu hymrwymo ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun.

b) Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, 2004, yn gofyn bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn rheolaidd. Dechreuodd Cyngor Sir Penfro adolygu ei CDLl ar 5$^{ed}$ Mai 2017.

c) **Arwynebedd Cynllun Amgen Cyngor Sir Penfro yw Sir Benfro, ac eithrio mannau yn y Parc Cenedlaethol.**

d) Diben adolygu yw sicrhau bod y CDLl yn aros yn gyfredol. Mae adolygu'n rhoi cyfle i wneud newidiadau i'r Cynllun, os oes gofyn.

e) Weithiau bydd Adroddiad Arolygu Blynyddol (AAB) CDLl yn nodi un neu fwy o faterion fydd yn ennyn adolygu CDLl yn gynharach. Yn achos CDLl CSP, nid yw'r tri AAB cyntaf wedi nodi unrhyw fater sy'n ddigon difrifol i ennyn adolygiad cynnar. Cyhoeddwyd y pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol ar 31 Hydref, amryw fisoedd y tu hwnt i'r dyddiad 4 blynedd sy'n ennyn dechrau adolygiad llawn o CDLl y Cyngor yn ddiofyn. Ers hynny, cyhoeddwyd AABau pellach, gyda'r diweddaraf (ar gyfer blwyddyn 9) ar 31 Hydref 2022.

f) Mae gofyn i'r Cyngor ddatgan dyddiad olaf ar gyfer CDLl 2. Pennwyd hyn fel 31/12/33, a fydd yn sicrhau fod cyfnod sylweddol i'r Cynllun redeg ar ddyddiad ei fabwysiadu.

g) Mae dwy adran allweddol yn y Cytundeb Cyflawni (y ddogfen hon). Y cyntaf yw *Amserlen* cyfnodau allweddol paratoi'r Cynllun. Yr ail yw *Cynllun Cyfranogiad y Gymuned*, sy'n dangos sut fydd ymgysylltu â'r gymuned yn digwydd. Materion ychwanegol sy'n cael eu hystyried yw manylion sut fydd *Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol*, y CDLl yn cael ei wneud, manylion sut fydd *Arfarniad o Reoliad Cynefinoedd* yn cael ei wneud a manylion pa eitemau o *Ganllawiau Cynllunio Atodol* y bwriedir eu hadolygu ar yr un pryd â pharatoi CDLl 2 sy'n cael eu hawgrymu ar gyfer adolygiad yn dilyn mabwysiadu CDLl 2.

h) Bydd disgwyl i’r agweddau ar y Cytundeb Cyflawni sy’n dangos manylion yr *Amserlen* wneud y canlynol:

i) Pennu dyddiadau pendant ar gyfer gorffen cyfnodau o broses y Cynllun hyd at Adneuo’r CDLl. (Adneuo yw’r cyfnod pan fo ymgynghori â’r cyhoedd ar ddrafft llawn y Cynllun.)

ii) Pennu dyddiadau arwyddol ar gyfer gorffen cyfnodau o broses y Cynllun y tu hwnt i Adneuo. Mae'r fersiwn hwn o'r Cytundeb Cyflawni, a ddiwygiwyd ymhellach, yn darparu dyddiadau pendant hyd at gyflwyno gan fod y dyddiadau hyn o fewn rheolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ar ôl cyflwyno'r CDLl i Lywodraeth Cymru, mae'r amserlen yn dynodi gan fod y dyddiadau y tu allan i reolaeth yr awdurdod.

i) Mae *Cynllun Cyfranogiad y Gymuned* yn ffurfio rhan o’r Cytundeb Cyflawni. Mae’n egluro sut fydd y Cyngor yn ymwneud â rhanddeiliaid a’r cyhoedd drwy gydol proses baratoi’r Cynllun. Mae hefyd yn esbonio sut fydd yn ymateb yn rheolaidd.

j) Caiff manylion bras yr *Amserlen* eu dangos yn y tabl yn adran 1 – Cyflwyniad. Mae dyddiadau pendant hyd at y cyfnod Cyflwyno a rhai arwyddol y tu hwnt i Gyflwyno.

k) Rhaid i’r Cytundeb Cyflawni ac unrhyw adolygiad iddo gael ei gymeradwyo trwy benderfyniad ffurfiol y Cyngor a’i gytuno wedyn gyda Llywodraeth Cymru. Rhaid iddo gael cyhoeddusrwydd a bod ar gael i’r cyhoedd ei archwilio.

l) Mae Llywodraeth Cymru’n disgwyl i Awdurdodau Cynllunio Lleol orffen adolygu eu CDLl mewn llai na phedair blynedd. Adlewyrchwyd y disgwyliad hwn yn yr amserlen a bennwyd ar gyfer adolygu’r Cynllun hwn. Fodd bynnag, o ganlyniad i’r pandemig Covid-19 a’r canllawiau ar ffosffad a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, nid oes modd diwallu'r dyhead hwn mwyach. Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i fwrw ymlaen gyda CDLl 2 mewn modd amserol.

m) Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd y Cyngor yn ceisio cael cydsyniad ar ddyfodol gorau ardal y Cynllun. Bydd ymwneud â rhanddeiliaid drwy gydol proses baratoi’r Cynllun ac ymgynghori â’r cyhoedd ar adegau allweddol yn y broses honno.

n) Bydd yn ofynnol i bolisïau a chynigion y CDLl gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (cyhoeddwyd Chwefror 2021) ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau a rheoliadau cenedlaethol.

o) Yn dilyn y cyfnod Adneuo, bydd y CDLl yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac yna’n cael ei archwilio gan Arolygydd annibynnol o Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn flaenorol).

p) Bydd yr Arolygydd sy'n archwilio'r CDLl yn paratoi adroddiad ar y Cynllun. Rhaid mabwysiadu'r Cynllun o fewn 8 wythnos i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd, ac yn unol ag argymhellion yr Arolygydd. Mae gan yr Arolygydd bwerau i ychwanegu at y Cynllun, ei newid a / neu ddileu rhannau ohono. Mae argymhellion yr Arolygydd yn rhwymo'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

q) Wrth benderfynu ceisiadau cynllunio, nid yw'r pwysau sydd gan CDLl diwygiedig eginol yn amlwg. Nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu'r cyfnod a gyrhaeddodd y cynllun eginol wrth ei baratoi. Bydd angen ystyried yn ofalus y dystiolaeth sylfaenol a chefndir y polisïau eginol a gofynion polisi cenedlaethol. Nid oes modd bod yn hollol bendant ynghylch cynnwys y Cynllun cyn derbyn adroddiad cyfrwymol yr Arolygydd. Caiff hyn ei esbonio'n fwy manwl ym mharagraffau 7.5 i 7.8 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3). Cyn mabwysiadu CDLl 2, bydd y CDLl cyfredol (a fabwysiadwyd ar 28/02/13) yn dal mewn grym fel y Cynllun Datblygu ar gyfer rhannau Sir Benfro oddi allan i'r Parc Cenedlaethol. Ar 24 Medi 2020, ysgrifennodd Gweinidog Llywodraeth Cymru at bob Arweinydd a Phrif Weithredwr Awdurdod Lleol yn egluro nad oedd y darpariaethau yn Neddf Cynllunio Cymru 2015 a ddaeth i rym ar 4 Ionawr 2016 yn cael effaith ôl-weithredol. Mae hyn yn golygu nad yw'r darpariaethau'n berthnasol i CDLlau a fabwysiadwyd cyn y dyddiad hwn a bydd Cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016 yn parhau i fod yn CDLl ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio nes bydd CDLl pellach yn ei le. Gan fod CDLl Sir Benfro wedi cael ei fabwysiadu ar 28 Chwefror 2013, bydd felly'n parhau i fod y CDLl ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio, nes bydd y CDLl 2 mabwysiedig yn cymryd ei le.

r) O'i fabwysiadu, bydd y CDLl yn cael ei arolygu'n rheolaidd, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Bydd Adroddiadau Arolygu Blynyddol yn cael eu paratoi, mewn ffordd debyg i'r rhai ar gyfer CDLl 1 ar hyn o bryd.

# 1 Cyflwyniad

## Hierarchaeth Cynllun Datblygu

1.1 Yng Nghymru, mae'r system dan arweiniad y cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniadau cynllunio gael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu mabwysiedig, oni bai bod ystyriaethau materol yn nodi fel arall. Mae system y Cynllun Datblygu yng Nghymru yn cynnwys tair haen:

- Ar y lefel genedlaethol, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ym mis Chwefror 2021.
- Ar y lefel ranbarthol, mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Strategol (CDS) gael eu paratoi gan Gydbwyllgorau Corfforaethol (CC). Ym mis Ionawr 2022, cyfansoddwyd y CJC ar gyfer de-orllewin Cymru yn ffurfiol sy'n cwmpasu ardaloedd awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a rhan o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae disgwyl i'r gwaith ddechrau'n ffurfiol ar baratoi'r CDS yn y dyfodol agos a bydd yn cymryd tua phedair blynedd i baratoi. Rhaid i'r CDS fod yn cydymffurfio'n gyffredinol â Chymru'r Dyfodol.
- Caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei baratoi gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ac mae'n ofynnol iddo fod yn cydymffurfio'n gyffredinol â Cymru’r Dyfodol ac ar ôl ei fabwysiadu, yr CDS.

Cynlluniau Datblygu Lleol

1.2 Caiff CDLl yng Nghymru eu paratoi gan Gynghorau neu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yn ôl telerau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Rheoliadau cysylltiedig 2004 a Rheoliadau Diwygio 2015. Maent yn dangos sut mae disgwyl i ddefnyddiau tir newid i ddiwallu anghenion datblygu dros gyfnod cynllun penodedig, gan roi sicrwydd i ddatblygwyr a’r cyhoedd. Maent hefyd yn gwarchod darnau arbennig o dir sy’n cael eu gwerthfawrogi am amrywiaeth o resymau, fel eu pwysigrwydd i fioamrywiaeth, eu harwyddocâd at ddibenion adloniadol ac amwynder a / neu ansawdd eu tirwedd.

1.3 Mae CDLl yn cynnwys cymysgedd o bolisïau a chynigion strategol, lleol a phenodol i safle. Mae’r rhain yn cwmpasu’r prif fathau o ddatblygiad sy’n debygol o ddigwydd yn ardal y Cynllun. Ni ddylent ailadrodd polisi cynllunio Cymru.

1.4 Wrth baratoi eu CDLl, mae gofyn i Gynghorau ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ateb y gofynion statudol ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Mae gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldebau 2010, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn statudol yn y broses CDLl ac mae disgwyl y bydd rheoliadau sy'n ymwneud ag Asesiad Effaith ar Iechyd. Mae'r ystyriaethau hyn wedi'u gwreiddio yn y broses o baratoi'r Cynllun er mwyn galluogi asesiad trylwyr o oblygiadau cynaliadwyedd y Cynllun. Mae rhagor o wybodaeth am y pynciau hyn wedi'i chynnwys yn ddiweddarach yn yr adran hon.

1.5 Mae Cynlluniau Llesiant Lleol, a baratowyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, yn darparu'r fframwaith strategol cyffredinol ar gyfer yr holl gynlluniau a strategaethau a baratowyd gan awdurdodau lleol, gan gynnwys CDLl. Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Sir Benfro gyntaf ym mis Mai 2018 achyhoeddwyd Cynllun Llesiant newydd ar gyfer 2023-2028 ym mis Mai 2023. Fe wnaeth Cynlluniau Llesiant ddisodli’r Cynlluniau Integredig Sengl a, chyn y rhain, y Cynlluniau Cymunedol.

1.6 Caiff Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) eu defnyddio i gyflwyno canllawiau manwl thematig neu benodol i safle ar sut mae polisïau CDLl i gael eu dehongli neu gymhwyso mewn sefyllfaoedd neu ardaloedd penodol. Mae defnyddio CCA yn sicrhau bod CDLl yn cael eu paratoi heb gynnwys gormod o fanylion. Nid yw dogfennau CCA yn rhan o’r CDLl. Fodd bynnag, yn amodol ar ymgynghori priodol a mabwysiadu ffurfiol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, gallant fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Mae rhagor o wybodaeth am CCA yn ddiweddarach yn yr adran hon.

1.7 Mae ardal y CDLl cyntaf yn cwmpasu Sir Benfro gyfan, heblaw mannau yn y Parc Cenedlaethol. Ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw’r Awdurdod Cynllunio Lleol ac mae’n paratoi ei CDLl ei hun. Fel arfer, mae cynllunio defnydd tir daearol yn ymestyn i’r marc distyll cymedrig, ond mae eithriad o gwmpas Doc Penfro, lle mae’n ymestyn i ganol y sianel. Bydd ardal Cynllun yr ail CDLl yr un fath â’r cyntaf.

Y Cytundeb Cyflawni ar gyfer y CDLl amgen

1.8 Bydd adolygu'r CDLl yn golygu ailredeg proses gyfan paratoi'r Cynllun. Bydd y cynnyrch terfynol yn CDLl Amgen, fydd yn disodli'r Cynllun cyfredol pan gaiff ei fabwysiadu. Oherwydd bod hwn yn adolygu CDLl presennol, rhaid paratoi dogfen ychwanegol, un nad oedd ei hangen ar gyfer y CDLl cyntaf. Adroddiad Adolygiad yw hwn, yn cyflwyno'r prif feysydd pwnc lle mae'r CDLl cyfredol yn gwneud yn wael, nodi sefyllfaoedd ble mae ar ôl yr oes a nodi pa rannau o'r Cynllun sydd angen adolygiad.

1.9 Un arall o'r gorchwylion cynnar yn y drefn adolygu yw paratoi Cytundeb Cyflawni newydd (y ddogfen hon) i ddisodli'r un a baratowyd ar gyfer y CDLl cyntaf. Nid yw'r gofynion mewn cysylltiad â ffurf a chynnwys y Cytundeb Cyflawni wedi newid yn sylweddol ers paratoi'r CDLl cyntaf. Fodd bynnag, mae'r amserlen y tro hwn ar gyfer adolygu'r Cynllun. Mae gofynion cyfranogiad y gymuned wedi datblygu hefyd ac mae'r cynigion newydd yn y ddogfen hon yn adeiladu ar arferion gorau.

1.10 Yn ogystal â'r sylwadau a wnaed uchod, mae'r profion cadernid fydd yn sail i archwilio'r CDLl amgen wedi newid ers paratoi'r CDLl cyntaf. Erbyn hyn mae tri phrawf i'w bodloni:

i) A yw'r Cynllun yn Addas? (Mewn geiriau eraill, a yw'n amlwg bod y Cynllun yn cyd-fynd â Chynlluniau eraill?)

ii) A yw'r Cynllun yn briodol? (Mewn geiriau eraill, a yw'r Cynllun yn addas i'r cylch lle caiff ei ddefnyddio, yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd?)

iii) A fydd y Cynllun yn cyflawni? (Mewn geiriau eraill, a yw'r Cynllun yn debygol o fod yn effeithiol?)

1.11 Mae Cytundeb Cyflawni'r CDLl amgen yn cynnwys Amserlen a Chynllun Cyfranogiad y Gymuned. Mae gwybodaeth hefyd am Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol) ac Arfarniad o'r Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun ac am y rhaglen ar gyfer paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymhelaethu ar agweddau ar y CDLl.

1.12 Mae'r Cytundeb Cyflawni'n darparu cynllun prosiect ar gyfer adolygu'r CDLl ac esboniad o sut fydd y gymuned yn ymwneud â pharatoi'r cynllun.

1.13 Mae gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni'n ffurfiol, trwy benderfyniad, ac yna rhaid i Lywodraeth Cymru ei gydsynio. Mae gofynion cyhoeddusrwydd ac archwiliad cyhoeddus perthnasol i hyn.

1.14 Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y bydd gofyn adolygu’r *Amserlen*. Fodd bynnag, efallai y bydd angen adolygu *Cynllun Cyfranogiad y Gymuned* os bydd newidiadau arwyddocaol. Yn sgil pandemig COVID-19 yn 2020 y cafwyd y diwygiad cyntaf i Amserlen DA. Cafwyd diwygiad pellach i Amserlen DA yn 2023 yn sgil yr effaith sy'n gysylltiedig â chyhoeddi Canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar Ffosffadau mewn rhannau o afonydd nad ydynt yn llanw sydd wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACD).

1.15 O ran CDLl CSP, caiff adolygiad llawn o’r Cynllun ei ystyried yn angenrheidiol. Mae Llywodraeth Cymru’n rhagweld y dylai cwblhau Cynllun Amgen llawn ‘ddim cymryd mwy na 3.75 mlynedd’ (dyfyniad 3.24 o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 3). Fodd bynnag, mae pandemig Covid-19 a Chanllawiau CNC ar ffosffadau yn golygu bod hyn yn afrealistig i CDLl 2 y Cyngor.

1.16 Er bod Cyngor Sir Penfro wedi gwneud cynnydd da o ran paratoi’r Cynllun a’i fod o fewn paramedrau’r Cytuneb Cyflawni cymeradwy ym mis Mawrth 2020, mae pandemig Covid-19 wedi achosi oedi sylweddol i’r broses ac wedi creu angen i adolygu sylfaen dystiolaeth y Cynllun.

1.17 Ysgrifennodd Gweinidog Cymru, Julie James, at bob Prif Swyddog Cynllunio yng Nghymru ym mis Mawrth 2020 yn amlinellu cyngor Llywodraeth Cymru i’r Awdurdodau hynny sy’n paratoi Cynllun Datblygu Lleol. Nododd y llythyr hwn:

“Lle mae ACLlau wedi cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol dan y Cytundeb Cyflawni a Chynllun Cyfranogiad y Gymuned, maent wedi cwblhau’r cam statudol hwnnw, ond bydd angen iddynt oedi a myfyrio ar sut y maent yn datblygu’r cynllun. Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i’r goblygiadau ar amseriad paratoi’r cynllun a faint o amser ychwanegol fydd ei angen. Mae’r sefyllfa hon yn berthnasol i Sir Benfro a Sir Gâr.

*Cyngor Sir Penfro: Daeth yr ymgynghoriad ar Gynllun Adneuo’r CDLl i ben ar 18 Mawrth 2020. Ar yr amod bod yr holl ddigwyddiadau ymgysylltu a nodwyd yng Nghynllun Cyfranogiad y Gymuned wedi’u cwblhau, bydd y cynllun yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol o ran y cam ymgynghori.”* Fodd bynnag, gan fod bwriad bellach i ailadrodd cam Adneuo proses y Cynllun, bydd angen sicrhau bod gofynion y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS) yn cael eu cwblhau ar gyfer yr ymgynghoriad pellach cysylltiedig hefyd.

1.18 Ym mis Gorffennaf 2020, ysgrifennodd Gweinidog Cymru at bob Arweinydd a Phrif Weithredwr Awdurdodau Lleol ac amlinellu’r rôl y gall y system gynllunio ei chwarae yn adferiad Covid-19. Yn y llythyr hwn, tynnodd sylw at yr angen i Awdurdodau Cynllunio ailasesu eu sylfaen tystiolaeth, eu strategaeth a’u polisïau o ran sensitifrwydd i ganlyniadau’r pandemig. Mae Llywodraeth

Cymru yn gofyn bod yr asesiad hwn yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â cheisiadau i ymestyn Cytundebau Cyflawni. Mae Asesiad Effaith COVID-19 ar Gynllun Datblygu Lleol 2 Cyngor Sir Penfro – Sylfaen Tystiolaeth, Polisïau a Strategaeth yn cyd-fynd â'r ddogfen hon.

1.19 Dengys y tabl isod y cyfnodau allweddol ym mhroses y Cynllun. Mae'n tynnu sylw at y camau sydd eisoes wedi'u cwblhau ac yn nodi dyddiadau diffiniol a dangosol newydd ar gyfer cwblhau'r camau na chawsant eu cyflawni eto. Caiff dyddiadau pendant eu dangos mewn du, rhai arwyddol mewn llwyd.

| *Cyfnod allweddol* | *Amseriadau pendant ac arwyddol* |
|---|---|
| Adroddiad yr Adolygiad | Dechreuwyd paratoi ym mis Mai 2017, gyda'r ddogfen i'w chyhoeddi ar gyfer ymgynghori anffurfiol ym mis Tachwedd 2017, ochr yn ochr â'r Cytundeb Cyflawni. |
| Cytundeb Cyflawni | Cymeradwywyd gan LIC ym mis Mehefin 2018. Cyflwynwyd Cytundeb Cyflawni diwygiedig i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020. |
| Strategaeth Ddewisol | Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol Rhagfyr 2018-Chwefror 2019. |
| Adneuo Cyntaf | Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol rhwng 15 Ionawr a 18 Mawrth 2020. |
| Ailadneuo | Ailymwelir â'r cam Adneuo gydag ymgynghoriad Adneuo newydd yn dechrau mis Hydref 2024 |
| Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru | Erbyn mis Mehefin 2025. |
| Archwiliad | Hydref / gaeaf 2025 |
| Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd | Mawrth 2026 |
| Mabwysiadu | Mai 2026 |

<u>Gweithio ar y cyd ag awdurdodau cynllunio cymdogol</u>

1.20 Ystyriwyd posibilrwydd paratoi cydgynlluniau gydag awdurdodau cymdogol. Fodd bynnag, mae llinellau amser CDLl Amgen yr awdurdodau cymdogol yn amrywio, fel y dangosir isod:

- Mabwysiadodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro y CDLl 2 ar 30 Medi 2020.
- Mae adolygiad CDLl Cyngor Sir Ceredigion wedi'i ohirio ac nid yw'r awdurdod hwn yn bwrw ymlaen ar hyn o bryd gyda'r CDLl 2 diwygiedig, yn bennaf oherwydd materion ansawdd dŵr afonydd, gan gynnwys lefelau uchel o ffosffad.
- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ar hyn o bryd wrthi'n adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Bu ymgynghori ar y Cynllun Adneuo cyntaf rhwng 29/01/20 a 27/03/20, ynghyd ag ymgynghoriad pellach rhwng 11/09/20 a 02/10/20. Bu ail fersiwn o'r Cynllun Adneuo (yn lle'r un cyntaf) yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17/02/23 a 14/04/23. Adolygodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei Gytundeb Cyflawni ym mis Ionawr 2024 a bydd yn ymgynghori ar newidiadau penodol i'w Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'i Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, a ragwelir ar gyfer mis Mawrth 2024. Bydd Archwiliad Annibynnol yn dilyn, a disgwylir ei fabwysiadu ym mis Mai neu fis Mehefin.

1.21 Yn ofodol, byddai manteision i'w cael wrth weithio gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar adolygu'r Cynllun, gyda'r cynnyrch terfynol yn un Cynllun ar gyfer Sir Benfro. Fodd bynnag, nid yw amserlenni adolygu'r ddau awdurdod yn cydredeg ac mae cyfeiriad a dibenion y ddau sefydliad yn wahanol. Ar ddechrau adolygiad CDLl Cyngor Sir Penfro, byddai penderfynu paratoi cydgynllun gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar yr adeg hon wedi golygu bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gorfod ailddechrau paratoi'r Cynllun, gan beri colli amser sylweddol iddo a mentro cyfnod heb Gynllun unwaith y byddai CDLl cyfredol y Parc Cenedlaethol wedi cyrraedd ei ddyddiad olaf. Byddai hefyd wedi golygu bod Cyngor Sir Penfro'n colli amser, ond llai, trwy orfod dechrau eto. Yn y pen draw, mabwysiadodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol ei CDLl newydd ym mis Medi 2020.

1.22 Ar ddechrau adolygiad CDLl Cyngor Sir Penfro, byddai trefniadau Cydgynllun wedi effeithio hefyd, i ryw raddau, ar raglen CDLl Amgen Cyngor Sir Ceredigion, a oedd wedi dechrau, er ei fod yn gynnar yn ei hanes ac ers hynny wedi cael ei oedi

(nid oedd Sir Gâr wedi dechrau adolygu'r Cynllun ar y pryd) ond ers hynny mae wedi symud ymlaen â'i CDLl newydd y tu hwnt i'r cam adneuo).

. Mae gwahaniaethau arwyddocaol yn natur economaidd a diwylliannol Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gâr a fyddai'n debygol o wneud Cydgynllun yn fwy cymhleth a hir i'w gyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys gwahaniaethau yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau, gwahaniaethau yn swyddogaeth

twristiaeth, y berthynas arbennig rhwng Sir Benfro a’r Parc Cenedlaethol a sylfaen economaidd y gwahanol ardaloedd.

1.23 Mae gofynion newydd i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol rhanbarthol bellach yn ystyriaeth ar holl drefniadau gweithio ar y cyd yn ne-orllewin Cymru ac mae rhai hefyd yn cynnwys awdurdodau'r canolbarth.

1.24 Yn y cyfamser, tra bod y rhan fwyaf o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Rhanbarth De-orllewin Cymru wrthi'n paratoi CDLl 2 neu wedi'u cwblhau (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), mae cyfle i baratoi tystiolaeth ar y cyd ac i weithio'n gydweithredol ar faterion o ddiddordeb cyffredin, yn arbennig ar weithredu ac adolygu pob CDLl unigol. Mewn gwirionedd, mae hyn yn digwydd eisoes, gydag agwedd seiliedig ar gydweithrediad yn rhan o waith timau CDLl pob sefydliad. Mae cydweithredu ar hyn o bryd yn ymwneud â materion o bwysigrwydd rhanbarthol a strategol, meysydd pwnc arbenigol fel mwynau a gwastraff a pharatoi rhai elfennau o'r sylfaen dystiolaeth ar y cyd. Mewn rhai achosion, mae cydweithio'n ymestyn i awdurdodau ymhellach draw. Ar adegau allweddol, bydd Cyd-ddatganiadau o Dir Cyffredin yn cael eu paratoi yn ôl yr angen, i roi eglurder ar yr agweddau cyffredin.

Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.25 Roedd cylch cyntaf y CDLl yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG), gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Bydd fel hyn hefyd ar gyfer CDLl 2. Caiff Arfarniad o Gynaliadwyedd ei ddefnyddio i asesu goblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cynlluniau, strategaethau a pholisïau eginol. Mae'r gofyniad i wneud Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael ei bennu yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, 2004.

1.26 Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd CDLl yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), sy'n golygu gwneud asesiad trwyadl o effeithiau amgylcheddol Cynlluniau ac, i raddau llai, eu heffeithiau cymdeithasol. Prif ddiben AAS yw sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu cyfrif wrth baratoi Cynlluniau.

1.27 Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, yn ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn cael ei wneud fel a ganlyn:

- Adroddiad Sgrinio ar yr angen am Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol.
- Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd, a fydd yn disgrifio'r materion cynaliadwyedd cyfredol yn ardal y Cynllun a nodi casgliad cyffredin o amcanion cynaliadwyedd, a gaiff eu defnyddio i farnu'r Cynllun.
- Adroddiad Dechreuol Arfarniad o Gynaliadwyedd, yn egluro sut mae'n dewisiadau a pholisïau manwl a ystyriwyd ar gyfer y Cynllun yn debygol o wneud o ran amcanion cynaliadwyedd yr Adroddiad Cwmpasu. Bydd yr Adroddiad Llawn hefyd yn asesu sut mae modd osgoi neu wrthbwyso unrhyw effeithiau niweidiol CDLl 2 a sut mae cael yr effeithiau buddiol eithaf. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Strategaeth Ddewisol CDLl 2. Yna bydd yn cael ei ddiweddaru ar gyfer Cynllun Adneuo CDLl 2.
- Bydd Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd terfynol yn cael ei gyhoeddi ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd. Bydd hwn yn cynnwys unrhyw newidiadau gofynnol yn sgil casgliadau Adroddiad yr Arolygydd.

- Datganiad Mabwysiadu Arfarniad o Gynaliadwyedd, yn egluro sut y cyfrifwyd ystyriaethau cynaliadwyedd a'r Asesiad o Gynaliadwyedd wrth lunio CDLl 2 a'r Cynllun Ailadneuo.

Arfarniad o Reoliad Cynefinoedd

1.28 Mae angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar gyfer unrhyw Gynllun neu Raglen sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Natura 2000 (Ardal Cadwraeth Arbennig – ACA, neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig – AGA), os nad yw'r cyfryw Gynllun neu Raglen yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle at ddibenion gwarchod natur. Daw'r gofyniad hwn o Gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 92/43/EC, sy'n cael ei chyfeirio ati'n aml fel y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, a Chyfarwyddeb gynharach yr Undeb Ewropeaidd 79/409/EEC, fel y'i diwygiwyd 2009/147/EEC, sy'n dwyn yr enw cyffredinol y 'Gyfarwyddeb Adar'. Mae gofyn i'r asesiad nodi effeithiau tebygol y Cynllun neu Raglen ar y safle Natura 2000, nodi a yw'r effeithiau hyn yn gyfiawnadwy mewn cyd-destun ehangach a nodi unrhyw fesurau lliniaru sy'n angenrheidiol.

1.29 Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn tri chyfnod:

- Sgrinio.
- Yr Asesiad Priodol ei hun (os oes angen).
- Rhan-ddirymiad

Canllawiau Cynllunio Atodol

1.30 Ar gyfer cylch cyntaf y CDLl, paratowyd amryw eitemau o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a'u mabwysiadu gan y Cyngor. Datblygodd rhai o'r rhain ar yr un pryd â'r Cynllun ei hun a pharatowyd rhai eraill yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun. Diweddarwyd amryw ohonynt yn ddiweddar.

1.31 Bydd effaith cylch cyntaf y CDLl yn darfod pan gaiff CDLl 2 ei fabwysiadu. Bryd hynny, bydd unrhyw eitemau o CCA a fabwysiadwyd i gefnogi cylch cyntaf y CDLl hefyd yn peidio â bod yn effeithiol.

1.32 Mae'r Cyngor wrthi'n ail-lunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safleoedd Datblygu a Seilwaith ar y cyd ag adolygu'r CDLl. Bydd paratoi'r ddogfen hon, yn symud ymlaen ochr yn ochr ag adolygu'r Cynllun, a bydd dogfen ddrafft ar gael ochr yn ochr â fersiwn Adneuo o'r Cynllun, er na fydd yn bosibl ei fabwysiadu'n ffurfiol hyd nes y bydd ymgynghoriad ffurfiol ar ei gynnwys a CDLl 2 ei hun wedi'i fabwysiadu. Fel eithriad, efallai y bydd eitemau eraill o Ganllawiau Cynllunio Atodol hefyd ar gael ochr yn ochr â fersiwn Adneuo CDLl 2.

1.33 Bydd eitemau eraill o CCA sydd ar hyn o bryd yn cefnogi'r CDLl yn cael eu hail-lunio yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun amgen. Byddant yn destun ymgynghoriadau â'r cyhoedd cyn eu mabwysiadu fel dogfennau i gefnogi CDLl 2. Nid oes digon o adnoddau ar gael i ail-lunio'r eitemau ychwanegol hyn ar yr un pryd ag adolygu'r CDLl. Bydd yr eitemau ychwanegol yn cwmpasu gwahanol bynciau, gan gynnwys Tai Fforddiadwy, Rhwymedigaethau Cynllunio, Bioamrywiaeth, Dylunio, Ynni Adnewyddadwy a Safonau Parcio.

1.34 Fe all eitemau eraill o CCA gael eu nodi hefyd yn ystod neu ar ôl paratoi'r Cynllun. Gall y rhain fod yn benodol i bwnc neu'n gysylltiedig ag ardal ofodol arbennig.

1.35 Paratowyd amrywiol eitemau o ganllawiau arferion da cysylltiedig â chynllunio hefyd i gefnogi CDLl 1. Mae'r rhain o natur anffurfiol, heb fod yn destun prosesau ymgynghorol a gyda llai o bwysau arnynt yn y broses gynllunio. Byddant yn aros mewn grym ar ôl mabwysiadu CDLl 2. Fodd bynnag, fe all fod angen adolygu rhai ar ôl mabwysiadu CDLl 2 i adlewyrchu unrhyw newidiadau ym mholisïau'r CDLl yn y meysydd pwnc perthnasol.

1.36 Mae'r Cyngor eisoes wedi paratoi rhai eitemau o CCA ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Ble bynnag y bo modd, bydd yn ceisio parhau trefniadau ar gyfer paratoi ar y cyd yn y dyfodol.

## 2 Amserlen

2.1 At ddibenion amserlennu, diffiniwyd amseriadau rhai o gyfnodau'r Cytundeb Cyflawni'r CDLl cychwynnol yn fanwl tra bo amseriadau cyfnodau eraill yn arwyddol. Dywed Llawlyfr y CDLl rhifyn 3 y dylid pennu dyddiadau dechrau a darfod pendant ar gyfer cyfnodau o broses y Cynllun hyd at adneuo'r CDLl, gyda dyddiadau arwyddol ar gyfer y cyfnodau ar ôl Cyflwyno. Fodd bynnag, mae disgwyl y byddai'r dyddiadau arwyddol ar gyfer y camau diweddarach yn cael eu trosi'n ddyddiadau pendant yn dilyn Adneuo, i'w cytuno gyda Llywodraeth Cymru, a byddent yn cael eu cyhoeddi cyn Cyflwyno'r CDLl. Mae Cyngor Sir Penfro yn defnyddio'r adolygiad pellach hwn o'i Gytundeb Cyflawni CDLl 2 i gyflawni hyn, ond gan fod dyddiadau y tu hwnt i'r cam Cyflwyno dan reolaeth yr Arolygydd, dylid ystyried y rhain fel rhai dangosol o hyd.

2.2 Mae modd caniatáu ychydig o hyblygrwydd yn amserlen paratoi'r Cynllun. Cyngor Llywodraeth Cymru yw na ddylai hyn fod yn fwy na thri mis. Mae hyn yn rhoi cyfnod byr pryd y gall llithriant ddigwydd heb fod angen newid y Cytundeb Cyflawni'n ffurfiol. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y mae'n debygol o fod angen newid yr amserlen. Fodd bynnag, os bydd angen newid y Cytundeb Cyflawni, bydd manylion yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

2.3 Mae mesurau ar gyfer craffu corfforaethol wedi cael eu sefydlu i gadw golwg ar gynnydd paratoi'r CDLl, trwy gyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau. Bydd dogfennau allweddol y CDLl hefyd yn gofyn cymeradwyaeth y Cabinet a / neu'r Cyngor Llawn cyn ymgynghori â'r cyhoedd a'i fabwysiadu yn y pen draw.

| *Cyfnod* | *Rheoliad* | *Camau allweddol i'w cymryd yn y cyfnod hwn* | *Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno* |
|---|---|---|---|
| Adroddiad yr Adolygiad | | • Ystyried y canfyddiadau allweddol o Adroddiadau Arolygu Blynyddol CDLl blaenorol.<br>• Dechrau diweddaru sylfaen dystiolaeth y CDLl ac ymwneud â rhanddeiliaid.<br>• Dechrau cyhoeddi papurau cefndirol cyflawn a thystiolaeth.<br>• Ymgynghori anffurfiol â'r cyhoedd ar ddrafft Adroddiad yr Adolygiad, ochr yn ochr â'r Cytundeb Cyflawni.<br>• Ystyried ymatebion i Adroddiad yr Adolygiad ac adolygu, os bydd angen.<br>• Cyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br>• Ymgynghori ffurfiol, ochr yn ochr â'r Strategaeth Ddewisol, a all ennyn newidiadau ychwanegol. | Tachwedd 2017 (cyhoeddi ar gyfer ymgynghori anffurfiol, gydag ymgynghori ffurfiol ochr yn ochr â'r Strategaeth Ddewisol ym mis Rhagfyr 2018). Diwygiad Cyntaf oherwydd pandemig Covid-19 a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru 30 Hydref 2020. Bellach dan adolygiad pellach (y ddogfen hon) oherwydd |

| *Cyfnod* | *Rheoliad* | *Camau allweddol i'w cymryd yn y cyfnod hwn* | *Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno* |
|---|---|---|---|
| | | | canllawiau CNC ar ffosffadau. |
| Cytundeb Cyflawni | Rheoliadau 9 a 10 (2004) a Rheoliad 2 (3) (2015) | • Paratoi Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Amgen, sy'n cynnwys amserlen ar gyfer paratoi CDLl 2 ac sy'n cyflwyno dulliau ymgysylltu â'r gymuned.<br>• Y Cabinet yn ystyried Cytundeb Cyflawni Drafft cyn ymgynghori.<br>• Ymgynghori â'r cyhoedd ar ddrafft y Cytundeb Cyflawni.<br>• Ystyried ymatebion ac adolygu, os bydd angen.<br>• Drafft diwygiedig i'r Cyngor i'w gymeradwyo.<br>• Cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.<br>• O'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, rhoi cyhoeddusrwydd iddo a hysbysu holl gyrff ymgynghori penodol a chyrff ymgynghorol cyffredinol priodol. | Tachwedd 2017 (cyhoeddi at ymgynghor), cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru mis Mehefin 2018.. Adolygwyd gyntaf oherwydd pandemig Covid-19 ac fe'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru 30 Hydref 2020. Adolygwyd ymhellach yn bennaf oherwydd cyhoeddiad canllawiau ffosffad CNC yn |

| *Cyfnod* | *Rheoliad* | *Camau allweddol i'w cymryd yn y cyfnod hwn* | *Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno* |
|---|---|---|---|
| | | | 2023. Bellach yn cael ei adolygu eto oherwydd llithriad amserlen. |
| Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd | | • Adolygu gwybodaeth sylfaenol.<br>• Adolygu dangosyddion ac amcanion.<br>• Penderfyniad sgrinio ar yr angen am Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol) ar y cyd ag adolygu'r CDLl.<br>• Ymgynghoriad gyda chyrff statudol ac eraill sy'n cynrychioli buddion cymdeithasol ac economaidd ar Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol)<br>• Ystyried ymatebion ac adolygu, os bydd angen.<br>• Drafft diwygiedig i'r Cyngor i'w gymeradwyo.<br>• Cyhoeddi ar ôl cael cymeradwyaeth y Cyngor. | Penderfyniad sgrinio ar AoG erbyn mis Tachwedd 2017.<br><br>Ymgynghoriad gyda chyrff statudol ac eraill sy'n cynrychioli buddion cymdeithasol ac economaidd ar Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o |

| ***Cyfnod*** | ***Rheoliad*** | ***Camau allweddol i'w cymryd yn y cyfnod hwn*** | ***Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno*** |
|---|---|---|---|
| | | | Gynaliadwyedd ym mis Mai 2018, a disgwylir cyhoeddi'r fersiwn terfynol ym mis Gorffenaf 2018. Cyhoeddwyd Adroddiad Cychwynnol ry SA ar gyfer Strategaeth Ddewisol ym mis Rhagfyr 2018 (ymgynghoriad 17/12/18 i 04/02/19) Cyhoeddwyd Adroddiad SA ar y Cynllun Adneuo cyntaf ym mis Ionawr 2020 (ymgynghoriad |

| *Cyfnod* | *Rheoliad* | *Camau allweddol i'w cymryd yn y cyfnod hwn* | *Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno* |
|---|---|---|---|
| | | | 15/01/20 i 18/03/20). Paratowyd crynodeb annhechnegol hefyd. Adroddiad SA i gael ei ddiweddaru a'i adolygu ar gyfer yr ail gam Adneuo. |
| Cyfranogi Cyn Adneuo | Rheoliad 14 (2005) | • Hysbysebu am Safleoedd Ymgeisiol, gan gynnwys ffurflen a nodyn esboniadol i gefnogi'r gwahoddiad i gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol.<br>• Paratoi meini prawf dewis safleoedd a chymhwyso hyn i bob un o'r Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynir.<br>• Dal i ddiweddaru'r sylfaen dystiolaeth a dechrau cloriannu goblygiadau'r dystiolaeth ddiweddaraf.<br>• Paratoi gweledigaeth ac amcanion y Cynllun Amgen. | Mawrth 2018 (dechrau hysbysebu am Safleoedd Ymgeisiol)<br><br>Gorffennaf 2018 (dechrau paratoi'r Strategaeth |

| *Cyfnod* | *Rheoliad* | *Camau allweddol i'w cymryd yn y cyfnod hwn* | *Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno* |
|---|---|---|---|
| | | • Paratoi Strategaeth Ddewisol y Cynllun Amgen, gan gynnwys dewisiadau os bydd angen.<br>• Gwneud Arfarniad o Gynaliadwyedd Strategaeth Ddewisol y Cynllun Amgen (Adroddiad Dechreuol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd). Os oes dewisiadau, bydd yr AoG yn cwmpasu pob un o'r rhain.<br>• Ymgynghori gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Strategaeth Ddewisol.<br>• Paratoi asesiadau effaith cysylltiedig. | Ddewisol – gwelwch isod i gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon) Rownd gyntaf o hysbysebion ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol yn rhedeg o fis Mawrth i fis Awst 2018. Roedd cyfle arall i gyflwyno safleoedd ar gael gyda'r ymgynghoriad Strategaeth Ddewisol, 17/12/18 i 04/02/19. Cynigiwyd cyfle pellach i gyflwyno |

| ***Cyfnod*** | ***Rheoliad*** | ***Camau allweddol i'w cymryd yn y cyfnod hwn*** | ***Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno*** |
|---|---|---|---|
| | | | safleoedd ymgeiswyr yr effeithiwyd arnynt, i unigolion ar gronfa ddata CDLl 1 CSP nad oeddent yn cael gwybod am y cyfle i gofrestru eu diddordeb ar gyfer cronfa ddata Cynllun CDLl 2 (07/06/2021 – 30/07/2021) |
| Ymgynghori Cyn Adneuo | Rheoliadau 15, 16 (2005) ac 16a (2015) | • Cyhoeddi dogfen y Strategaeth Ddewisol, ynghyd ag Adroddiad yr Adolygiad, Papurau Cefndirol a Phapurau Sylfaen Dystiolaeth (os nad oeddent ar gael eisoes), Arfarniad o Gynaliadwyedd y Strategaeth Ddewisol (Adroddiad Dechreuol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) a'r amrywiol Asesiadau.<br>• Cyhoeddi cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol. | Rhagfyr 2018 (ymgynghori ffurfiol â'r cyhoedd, ochr yn ochr ag Adroddiad yr Adolygiad) |

| *Cyfnod* | *Rheoliad* | *Camau allweddol i'w cymryd yn y cyfnod hwn* | *Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno* |
|---|---|---|---|
| | | • Ymgynghori ffurfiol â'r cyhoedd ar y Strategaeth Ddewisol, Adroddiad yr Adolygiad ac Arfarniad o Gynaliadwyedd Adroddiad yr Adolygiad (Adroddiad Dechreuol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).<br>• Papurau Cefndirol a Phapurau wedi'u seilio ar dystiolaeth a'r Asesiadau amrywiol i fod ar gael ar wefan y Cyngor.<br>• Cyfranogiad rhanddeiliaid.<br>• Gweithdai'r Aelodau.<br>• Paratoi Adroddiad Ymgynghori Dechreuol. | Cynhaliwyd yr ymgynghoriad Strategaeth Ddewisol o 17/12/18 i 04/02/19.<br><br>Ymgynghori pellach wedi'i dargedu ar y CDLl 2<br><br>Cynhaliwyd y Strategaeth a Ffefrir rhwng 19/01/22 a 16/03/22 i fynd i'r afael â materion yn codi o fater cronfa ddata a oedd wedi codi'n gynharach yn y broses o baratoi'r |

| *Cyfnod* | *Rheoliad* | *Camau allweddol i'w cymryd yn y cyfnod hwn* | *Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno* |
|---|---|---|---|
| | | | Cynllun. Fodd bynnag, ni wnaed unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen Strategaeth Ddewisol mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. |
| Adneuo | Rheoliadau 17, 18 a 19 (2005) | • Nodi holl dir a neilltuwyd a gwneud unrhyw Asesiadau gofynnol.<br>• Cyhoeddi'r Cynllun Adneuo – sy'n fersiwn drafft llawn o'r CDLl.<br>• Ymgynghori ffurfiol â'r cyhoedd ar y Cynllun Adneuo.<br>• Cyhoeddi ac ymgynghori ar Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol) y Cynllun Adneuo – a | Adroddwyd ar y Cynllun Adneuo gerbron y Cyngor ym mis Rhagyr 2019 ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020. Cynhaliwyd ymgynghoriad o |

| *Cyfnod* | *Rheoliad* | *Camau allweddol i’w cymryd yn y cyfnod hwn* | *Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno* |
|---|---|---|---|
| | | fydd yn fersiwn addasedig o Adroddiad Dechreuol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.<br>• Cyhoeddi’r Adroddiad Asesu Safleoedd ochr yn ochr â’r Cynllun Adneuo – bydd hwn yn rhoi canlyniad cyntaf pob cyflwyniad Safle Ymgeisiol ar gyfer CDLl 2.<br>• Cyhoeddi Adroddiad Sgrinio’r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.<br>• Cyhoeddi’r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i gefnogi fersiwn Adneuo CDLl 2.<br>• Cyhoeddi fersiynau diweddar Papurau Cefndirol, Papurau Sylfaen Dystiolaeth ac Asesiadau ychwanegol.<br>• Cyfranogiad ychwanegol rhanddeiliaid.<br>• Rhagor o weithdai’r Aelodau.<br>• Cyhoeddi fersiwn diweddaraf yr Adroddiad Ymgynghori Dechreuol. | 15 Ionawr 2020 i 18 Mawrth 2020 ochr yn ochr â’r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd i’r Cynllun Adneuo (gan gynnwys AAS), yr Adroddiad Asesu Safleoedd, Adroddiad Sgrinio’r ARhC, yr ARhC ei hun a’r Adroddiad Ymgynghori Dechreuol) |
| Ailadneuo | Rheoliadau 17, 18 a 19 (2005) | • Nodi pob dyraniad tir a chynnal unrhyw Asesiadau gofynnol.<br>• Cyhoeddi'r Cynllun ailadneuo – sef fersiwn ddrafft llawn diwygiedig o'r CDLl. | Ymgynghoriad i ddechrau ym mis Hydref 2024 (am |

| *Cyfnod* | *Rheoliad* | *Camau allweddol i'w cymryd yn y cyfnod hwn* | *Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno* |
|---|---|---|---|
| | | • Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y Cynllun ailadneuo.<br>• Cyhoeddi ac ymgynghori ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol) ar gyfer y Cynllun ailadneuo – a fydd yn fersiwn wedi'i addasu o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol.<br>• Cyhoeddi'r Adroddiad Asesu Safle ochr yn ochr â'r Cynllun Ailadneuo – bydd hyn yn rhoi'r canlyniad cychwynnol ar bob cyflwyniad Safle Ymgeisydd ar gyfer CDLl 2.<br>• Cyhoeddi'r Adroddiad Sgrinio Asesu Cynefinoedd.<br>• Cyhoeddi'r Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd i gefnogi'r fersiwn ailadneuo o CDLl 2.<br>• Cyhoeddi fersiynau wedi'u diweddaru o unrhyw Bapurau Cefndir pellach, Papurau Sylfaen Tystiolaeth ac Asesiadau.<br>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid pellach.<br>• Gweithdai Aelodau pellach.<br>• Cyhoeddi fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol. | isafswm o 6 wythnos) |
| Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio | Rheoliad 22 (2005) | • Paratoi ymatebion y Cyngor i sylwadau ar y CDLl Adneuo ac adroddiadau cysylltiedig, gan | Mehefin 2025 |

| *Cyfnod* | *Rheoliad* | *Camau allweddol i'w cymryd yn y cyfnod hwn* | *Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno* |
|---|---|---|---|
| | | gynnwys yr AoG / AAS ac ARhC sy'n cefnogi'r Cynllun Adneuo.<br>• Adolygu'r Cytundeb Cyflawni ymhellach, os oes angen.<br>• Cyflwyno holl ddogfennau angenrheidiol i Lywodraeth Cymru<br>• Trafod amseriadau diffiniol ar gyfer y camau sy'n weddill gyda'r Arolygydd a benodwyd i Archwilio'r Cynllun ar ôl ei Gyflwyno | |
| Arolwg Annibynnol | Rheoliad 23 (2005) | • Bydd yr Arolygydd yn ystyried cadernid y Cynllun, ar sail y tri phrawf. | Gaeaf 2025 / 2026 |
| Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd | Rheoliad 24 (2005) | • Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd o fewn y cyfnod penodedig yn dilyn ei dderbyn gan y Cyngor. | Mawrth 2026 |
| Mabwysiadu | Rheoliad 25 (2005) | • Sicrhau y mabwysiadwyd y Cynllun (h.y. ei fod yn weithredol) cyn pen 8 wythnos ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd. | Hydref 2025 |
| Arfarniad o Gynaliadwyedd a Datganiad Wedi Mabwysiadu | | • Diwygio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd i ystyried newidiadau a wnaed i'r Cynllun yn dilyn ar Arolwg Annibynnol (Adroddiad Terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).<br>• Paratoi datganiad yn egluro sut ystyriwyd materion cynaliadwyedd wrth baratoi'r Cynllun | Mae'r AoG yn gylchol a bydd y datganiad wedi mabwysiadu'n gyflawn erbyn hydref 2026 |

| *Cyfnod* | *Rheoliad* | *Camau allweddol i'w cymryd yn y cyfnod hwn* | *Dyddiadau targed cwblhau a dyddiadau cyhoeddi / cyflwyno* |
|---|---|---|---|
| | | (Datganiad Mabwysiadu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd). | |
| Arolygu ac Adolygu | Rheoliad 37 (2005) | • Paratoi Adroddiadau Arolygu Blynyddol CDLl sy'n cyflwyno adroddiad ar amrywiaeth o ddangosyddion a thargedau, i gloriannu pa mor llwyddiannus (neu fel arall) y mae'r Cynllun yn cael ei weithredu.<br>• Dechrau adolygiad ychwanegol o'r Cynllun yn ôl yr angen a, sut bynnag, ymhen pedair blynedd yn dilyn mabwysiadu. | Cyhoeddi AAB cyntaf CDLl 2 ar 31 Hydref 2028 (cyfnod yn cwmpasu'r dyddiad o fabwysiadu'r cynllun hyd at 31 Mawrth 2028)<br><br>Dyddiad adolygiad 4 blynedd: Mai 2030 |

## 3 Cynllun Cyfranogiad y Gymuned

3.1 Mae Cynllun Cyfranogiad y Gymuned (CCyG) yn dangos egwyddorion y Cyngor ar gyfranogiad y gymuned ac mae'n egluro sut fydd y Cyngor yn ymwneud â rhanddeiliaid. Mae'n nodi gyda phwy, pryd a sut fydd y Cyngor yn ymgynghori. Mae ymgynghori'n ofyniad proses y CDLl fel un o brif hybwyr meithrin cydsyniad.

3.2 Mae cyfranogiad cynnar a pharhaol y gymuned yn bwysig wrth helpu rhoi gwybodaeth a hefyd wrth geisio cydsyniad ynghylch datblygu a defnyddio tir yn y dyfodol yn Sir Benfro. Felly, mae'n hanfodol cynnwys rhanddeiliaid a'r gymuned yn gynnar a thrwy gydol proses baratoi'r cynllun.

### Egwyddorion Allweddol Ymgysylltu

3.3 Y prif nodau sy'n sail i ymgysylltu â'r gymuned ym mhroses y CDLl yw:

- Creu'r amgylchiadau ar gyfer cyfranogiad ac ymateb cynnar ar adeg pan fo gan bobl y cyfle mwyaf i ddylanwadu ar y cynllun;
- Annog ymrwymiad holl gyfranogwyr i drafodaeth agored a didwyll ar ddewisiadau datblygu ymarferol wrth geisio cydsyniad; a
- Derbyn yr angen i fabwysiadu dulliau o ddenu'r gymuned, gan gynnwys busnes, sy'n ceisio sylwadau'r rhai nad ydynt yn ymwneud fel arfer.

3.4 Cynllun Cyfranogiad y Gymuned (CCyG) yw datganiad y Cyngor o ymrwymiad i wella ymgynghori trwy amrywiol beirianwaith cyfranogiad y gymuned a thrwy sicrhau ymgysylltu parhaol. Mae'n cyflwyno'r gofynion ymgynghori ymhob cyfnod o'r cynllun, gyda phwy fydd yr ymgynghori a pha ddulliau fydd yn cael eu defnyddio.

3.5 Mae CCyG yn darparu'r fframwaith i bawb sydd â diddordeb yn nyfodol Sir Benfro ddod yn rhan weithredol o baratoi'r CDLl Amgen.

3.6 Seiliwyd CCyG Cyngor Sir Penfro ar y pedwar ymrwymiad canlynol:

- Eglurder - gweld bod cynlluniau, polisïau a chynigion ar gyfer penderfyniadau datblygu a chynllunio ar gael ar ffurf sy'n hawdd ei deall a hygyrch.
- Hyrwyddo cyfranogiad trwy gyflwyno cyfleoedd amlwg i bobl fynegi eu barn a chyfranogi yn y broses gynllunio, a dangos bod barn pobl yn rhan o'r broses benderfynu ac yn cael ei hystyried ynddi.
- Hygyrchedd - chwalu rhwystrau i gyfranogiad trwy estyn allan i grwpiau na fu'n ymwneud gymaint yn y gorffennol.
- Atebolrwydd - nodi penderfynwyr a phrosesau'n eglur a sicrhau bod pobl yn cael ymateb ynghylch dilyniant a chanlyniadau.

**Egwyddorion Cyfranogiad y Gymuned**

3.7 Mae'r Cyngor wedi dynodi rhai egwyddorion sylfaenol ar gyfer cyfranogiad y gymuned. Bydd holl ymgynghori'n cael ei wneud gyda'r egwyddorion hyn mewn golwg.

- **Diwylliant o ymgysylltu** - Dylai pobl wybod bod croeso iddynt gyfranogi yn y broses gynllunio a bod gan benderfynwyr wir ddiddordeb yn eu sylwadau.
- **O'r dechrau** - Dylid cynnwys y gymuned a rhanddeiliaid o gyfnodau cynharaf paratoi'r cynllun.
- **Estyn allan** - Dylai dulliau sy'n cael eu defnyddio i annog cyfranogiad fod yn briodol i brofiad ac anghenion pobl.
- **Addas i'r diben** - Dylai'r mathau o ymgynghori sy'n cael eu defnyddio fod yn addas ar gyfer y grŵp dan sylw a'r mater sy'n cael ei drafod. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod sylwadau'r gymuned ynghylch y technegau ymgysylltu mwyaf priodol yn cael eu hystyried.
- **Cyfranogiad parhaus** - Dylai'r gymuned ddal i gyfranogi drwy gydol proses baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Amgen a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig.
- **Eglurder a thryloywder** - Dylai'r broses gynllunio fod yn glir, fel bod pobl yn gallu cyfranogi mewn ffordd amserol ac effeithiol.
- **Clir a chyson** – Bydd y Cyngor yn defnyddio iaith glir sy'n ddealladwy i bobl ac yn ystyried anghenion cyfathrebu arbennig. Bydd yn osgoi jargon ac yn defnyddio geiriau y mae pobl yn gyfarwydd â nhw. Bydd negeseuon cyson, naws gyson a defnydd cyson o'n delwedd a brand corfforaethol yn atgyfnerthu eglurder cyfathrebu.
- **Sylwadau ffurfiol** - Bydd ymgynghoriadau fydd yn rhoi cyfleoedd i ymateb i gynigion ffurfiol y Cyngor. Mae'r rhain yn ofynion statudol, yn ôl Rheoliadau ac yn cynrychioli'r lleiafswm o ran cyfranogiad y gymuned.
- **Cyfranogiad yr Aelodau** - Mae'n bwysig cynnwys Aelodau etholedig y Cyngor Sir ymhob cyfnod o baratoi'r cynllun, gan ddechrau gyda gwaith cloriannu pa mor dda, neu fel arall, y mae'r cynllun presennol yn gweithio a chynnwys llunio'r Cynllun Amgen.
- **Ymateb** - Bydd ymateb yn cael ei roi i randdeiliaid ar ôl pob cyfnod ymgynghori.
- **Datrys gwrthdaro** - Mae rhai materion yn anodd iawn eu datrys ond y gobaith yw y daw cydsyniad ynghylch y materion sy'n cael sylw yn y CDLl a'r dewisiadau sy'n bodoli. Bydd Archwilio'r Cynllun yn rhoi cyfleoedd i'r Cyngor a chyflwynwyr sylwadau drafod materion pwysig a / neu ddadleuol gydag Arolygydd annibynnol. Bydd yr Arolygydd yn gallu gwneud argymhellion a fydd yn gyfrwymol ar y Cyngor, sy'n gorfod mabwysiadu'r Cynllun yn ôl cyfarwyddyd yr Arolygydd.

- **Cynwysoldeb** - Bydd ymdrech i geisio sylwadau trawstoriad o fuddiannau, gan gynnwys y rhai na chyfranogodd yn draddodiadol mewn llunio cynlluniau. Enw'r rhain yw grwpiau anodd eu cyrraedd. Caiff peirianwaith i ymwneud â nhw eu cyflwyno isod.
- **Y Gymraeg** - Bydd cyfranogiad dwyieithog yn cael ei wneud yn unol â Safonau'r Gymraeg[1]
    - Mae'r Awdurdod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg – bydd gohebwyr yn cael ateb yn iaith y llythyr gwreiddiol.
    - Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi cyn prosesu eich sylwadau.
    - Bydd holl lythyrau safonol, ffurflenni sylwadau, taflenni newyddion a rhybuddion cyhoeddus yn ddwyieithog.
    - Bydd holl gyhoeddiadau polisi a chanllawiau'r CDLl yn ddwyieithog.
    - Bydd holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu'r CDLl yn ddwyieithog.
    - Bydd pob cyfarfod, boed ffurfiol neu anffurfiol, yn cael ei gynnal yn ddwyieithog pan fydd cais am hynny o flaen llaw.

**Meithrin Consensws**

3.8 Bydd y Cyngor yn ceisio meithrin consensws ynghylch strategaeth gydlynol ar gynllunio defnydd tir yn y dyfodol yn Sir Benfro oddi allan i'r Parc Cenedlaethol. Ni fydd hyn yn cael ei gyflawni heblaw trwy gyfranogiad effeithiol y gymuned a rhai eraill â diddordeb yn y broses ddatblygu. Bydd meithrin consensws yn cael ei hwyluso trwy sefydlu a rhannu sail wybodaeth gyffredin ar gyfer y materion allweddol o'r dechrau. Bydd fforymau a dulliau rhannu gwybodaeth, sefydlu tir cyffredin a chytuno ar y gofyniad am ragor o wybodaeth i gyd yn rhan o CCyG. Pan fo gwahaniaethau barn yn digwydd, bydd rhannu'r wybodaeth sydd ar gael yn galluogi deall a pharchu safbwyntiau gwahanol.

[1] Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015: http://gov.wales/docs/dcells/consultation/141106-regulations-welsh-languagestandards-en.pdf

**Pwy fydd yn ymwneud â pharatoi'r CDLI?**

3.9 **Y Cyhoedd**

**Cronfa Ddata Pobl â Diddordeb**

Mae gan yr Awdurdod gronfa ddata o bobl a sefydliadau â diddordeb a fydd yn cael clywed am gynnydd y CDLl. Fe all unrhyw aelod o'r cyhoedd neu sefydliad ofyn am ymuno â'r gronfa ddata.

Os ydych eisiau bod yn y gronfa ddata hon, cysylltwch â'r Tîm Cynlluniau Datblygu ar 01437 764551, e-bost ldp@pembrokeshire.gov.uk neu ysgrifennwch at: Tîm Cynlluniau Datblygu, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 1TP. Cofiwch sôn wrthym os bydd arnoch angen diweddariadau ar bapur neu, fel arall, daw holl ddiweddariadau drwy e-bost.

Bydd pawb sy'n gwneud sylwadau ar y Cynllun ar unrhyw adeg yn cael eu hychwanegu at Gronfa Ddata Pobl â Diddordeb ac yn derbyn diweddariadau ar holl adegau allweddol o ddatblygiad y Cynllun.

3.10 **Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned**

Bydd pob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ym mhob cyfnod allweddol o baratoi'r Cynllun Amgen. Mae gan Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned ran allweddol i'w chwarae wrth ledaenu gwybodaeth am y CDLl i'w hardal leol. Byddant yn bwysig hefyd wrth roi gwybodaeth a sylwadau i lunio'r cynigion ar gyfer eu hardaloedd

3.11 **Grwpiau Anodd eu Cyrraedd**

Nodwyd y canlynol fel grwpiau anodd eu cyrraedd sy'n aml heb ymwneud â phroses baratoi'r cynllun. Bydd y ddau grŵp hyn yn cael eu hannog i gyfranogi ym mhroses baratoi'r cynllun.

- Pobl ifanc – bydd Grŵp Gweithredol Plant a Theuluoedd sefydledig yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod sylwadau pobl ifanc yn cael eu hystyried yn y broses. Bydd Seminar Pobl Ifanc, yn tynnu ynghyd disgyblion o ysgolion uwchradd lleol, yn cael ei ddefnyddio hefyd.
- Sipsiwn, Crwydriaid a Phobl Sioeau Teithiol – Mae gan Sir Benfro poblogaeth breswyl gymharol fawr o Sipsiwn Crwydrol, yn byw ar safleoedd ac mewn tai. Hefyd mae nifer bach o Bobl Sioeau Teithiol yn y Sir. Bydd y boblogaeth hon yn cael ei chyrraedd yn bennaf trwy ddefnyddio sianelau cyfathrebu presennol – sydd drwy'r Adran Dai.

3.12 **Aelodau Etholedig**

Mae CCyG yn derbyn bod cyfranogiad Aelodau etholedig Cyngor Sir Penfro drwy gydol proses y Cynllun o bwysigrwydd allweddol. Yn ystod paratoi'r Cynllun mae swyddogaeth yr Aelodau'n gymhleth ac amrywiol. Byddant yn rhoi gwybodaeth am ac yn cynrychioli eu cylchoedd lleol, yn lledaenu gwybodaeth i drigolion lleol a hefyd yn gwneud cyfraniad strategol ar faterion sy'n effeithio ar ardal gyfan y Cynllun. Bydd seminarau Aelodau'n cael eu cynnal cyn cyfarfodydd y Cabinet pan fo'r CDLl yn cael ei ystyried. Aelod y Cabinet dros Gynllunio a Chyflenwi Tai sy'n gyfrifol am y CDLl.

Bydd gofyn cymeradwyaeth y Cabinet a'r Cyngor Llawn ar adegau'r Strategaeth Ddewisol a'r Cynllun Adneuo. Bydd ei angen hefyd ar gyfer pob fersiwn o'r Cytundeb Cyflawni, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo'n ffurfiol.

### 3.13 **Grwpiau Rhanddeiliaid**

Sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol.. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn cynorthwyo i baratoi'r cynllun trwy roi barn gynrychiadol yn ystod ei ddatblygiad, a bydd yn parhau i wneud hyn, hyd at ac yn cynnwys y Cyfnod Adneuo. Bydd y grŵp yn cael ei ffurfio o swyddogion o'r cyrff sy'n ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro (PPSB), ynghyd ag arbenigwyr achlysurol sydd ag arbenigedd mewn meysydd penodol, os oes angen trafodaeth dechnegol benodol. Trafodir materion CDLl mewn cyfarfodydd pwrpasol, yn hytrach nag yn y cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro (PPSB) arferol.

Mewn rhai achosion, fe all cyfarfodydd gael eu cynnal hefyd gyda rhanddeiliaid unigol neu grwpiau bach o randdeiliaid.

3.14 **Partneriaethau Presennol**

Ble bynnag y bo modd, bydd y Cyngor yn ceisio cyfuno ei ymgynghoriadau a gweithgareddau CDLl gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud gan bartneriaethau eraill. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro
- Panel Busnes Sir Benfro
- Rhwydwaith Busnes Sir Benfro
- Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau
- Grwpiau wedi'u sefydlu i fwrw ymlaen â phrosiectau Porthladd Rhydd Celtaidd
- Bwrdd Partneriaeth Cydgomisiynu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant
- Partneriaeth Natur Leol
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Grŵp Gweithredol Plant a Theuluoedd
- Gweithgor Tai Fforddiadwy
- Grŵp Llywio Sipsiwn Teithwyr Sir Benfro
- Fforwm Cludiant Lleol
- Partneriaeth Cyrchfan Sir Benfro
- Fforwm Asiantau Cynllunio Sir Benfro

Y disgwyl yw y bydd gwaith presennol y Partneriaethau hyn yn cynorthwyo ysbrydoli cynnwys y CDLl Amgen.

3.15 **'Cyrff Ymgynghori Penodol' ac 'Adrannau Llywodraeth y DU'**

Yr ymgyngoreion hyn (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol 2005 fel y'i diwygiwyd yn 2015) yw'r cyrff hynny gyda swyddogaethau penodol sy'n cael eu nodi yn CDLl Rheoliad 2 a sy'n berthnasol yn ardal y Cynllun, er enghraifft Dŵr Cymru, y cwmni dŵr lleol sy'n gweithredu yn Sir Benfro. Mae angen i'r Awdurdod hefyd ymgynghori ag Adrannau Llywodraeth y DU pan fo'n ymddangos bod agweddau ar y cynllun yn effeithio ar eu buddiannau.

Bydd yr ymgyngoreion hyn yn cael cyfle i roi sylwadau ar gyfnodau ffurfiol allweddol wrth baratoi'r cynllun. Fe all rhai o'r grwpiau hyn fod yn aelodau pwysig o grwpiau rhanddeiliaid eraill hefyd.

3.16 **Cyrff Ymgynghori Cyffredinol**

Mae Cyrff Ymgynghori Cyffredinol (a ddiffinnir yn Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol 2005 fel y'i diwygiwyd yn 2015) yn cynnwys cyrff gwirfoddol, y rhai sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hiliol, crefyddol, ethnig,

cenedlaethol neu anabledd yn ardal y Cynllun, yn ogystal â'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy' rhedeg busnesau a'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymreig.

'Ymgyngoreion Eraill' yw'r rhai nad ydynt o angenrheidrwydd yn dod o fewn y categorïau uchod, ond sy'n dal i fod â diddordeb yn ardal y Cynllun ac y gall Cynllun Datblygu Lleol effeithio arnynt.

Bydd y cyrff hyn yn cael cyfle i roi sylwadau ar adegau allweddol ffurfiol (statudol). Fe all rhai o'r grwpiau hyn fod yn aelodau pwysig o grwpiau rhanddeiliaid eraill hefyd.

3.17 **Asiantau Cynllunio a Datblygwyr a'r rhai sy'n awgrymu tir i'w ddatblygu**

Bydd Fforwm presennol Asiantau Cynllunio Sir Benfro sy'n tynnu ynghyd cynrychiolwyr yr Awdurdod Cynllunio Lleol, datblygwyr lleol, penseiri ac asiantau eraill sy'n gweithio yn Sir Benfro'n cael ei ddefnyddio i sicrhau bod sylwadau Asiantau a Datblygwyr yn y Sir yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun.

Mae'r rhai sydd eisiau cyflwyno darnau o dir yr hoffent weld eu dynodi ar gyfer datblygu neu at ddibenion eraill wedi cael y cyfle i wneud hynny drwy'r broses Safleoedd Ymgeisiol. Bydd pawb sy'n cael eu hychwanegu at y Gronfa Ddata Pobl â Diddordeb yn derbyn negeseuon rheolaidd sy'n rhoi'r diweddaraf iddynt ar brosesau paratoi'r Cynllun. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi galwadau ffurfiol am safleoedd ymgeisiol ac wedi paratoi ffurflen gyflwyno Safle Ymgeisiol a nodyn esboniadol byr i'r rhai sydd eisiau cyflwyno Safle Ymgeisiol.

Defnyddiwyd ffurflen safonol i sicrhau bod digon o ddata'n dod gyda phob cyflwyniad Safle Ymgeisiol, a oedd felly'n caniatáu gwneud asesiad cadarn.. Roedd rhaid gwneud holl gyflwyniadau drwy'r ffurflen Cyflwyno Safle Ymgeisiol a'i dychwelyd i'r Tîm Cynlluniau Datblygu drwy e-bost yn ldp@pembrokeshire.gov.uk neu drwy'r post i'r Tîm Cynlluniau Datblygu, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 1TP.

**Sut fydd y Cyngor yn cyfathrebu â'r rhai dan sylw?**

3.18 **Dulliau Cyfranogi ac Ymgynghori**

Ar ddiwedd y ddogfen hon mae rhestr lawn o'r cyrff ymgynghorol penodol a chyffredinol. Ac eithrio Rhanddeiliaid Allweddol a Grwpiau Anodd eu Cyrraedd, bydd holl ymgyngoreion ar y rhestr yn cael eu cysylltu'n gynnar ym mhroses baratoi'r Cynllun i weld a fyddent yn hoffi ymwneud â pharatoi Adolygiad y Cynllun, gan enwi cyswllt, dull cysylltu, a dewis iaith. Bydd y Rhanddeiliaid Allweddol a'r grwpiau 'Anodd eu Cyrraedd' yn cael eu cynnwys drwy gydol paratoi'r Cynllun. Bydd y Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu â'r gymuned ac mae'r tabl ar dudalen 8 yn rhoi manylion gyda phwy fydd yr ymgynghori ar bob cam a sut fydd yr ymgynghori'n

digwydd. Mae dadansoddiad o'r gwahanol ddulliau ymgynghori a'u manteision ac anfanteision yn Atodiad 6 o'r CC gwreiddiol ac mae ei ganlyniadau'n dal yn berthnasol i Adolygiad y Cynllun.

3.19 **Deisebau**

Bydd deisebau a ddaw i law wrth ymgynghori ar y cynllun yn cael eu cydnabod a'u cofrestru fel sylwadau dilys. Rhaid i bob deiseb enwebu un cyflwynydd. Bydd cydnabyddiaeth trwy lythyr neu e-bost yn cael ei hanfon at gyflwynydd y ddeiseb a fydd yn fan cyswllt gyda hawl i'w glywed yn unrhyw archwiliad yn y dyfodol, yn amodol ar gytundeb yr Arolygydd. Nid yw hyn yn cyfyngu ar hawl unigolion sy'n llofnodi'r ddeiseb i wneud sylwadau ffurfiol ar y Cynllun ar wahân.

3.20 **Ymateb**

Bydd y Cyngor yn sicrhau ymateb mor fuan ag y bo modd ar ganlyniad ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned drwy gydol proses baratoi'r cynllun. Bydd ymateb y Cyngor ar y ffurfiau canlynol:

- Llythyr neu e-bost cydnabod yn rhoi manylion cysylltu, sut fydd y Cyngor yn delio â'r sylw a phryd fydd ymateb yn cael ei gyhoeddi. Bydd cofnod o achlysuron ymgynghori â'r cyhoedd a gynhaliwyd yn cael ei gyhoeddi fel rhan o Sylfaen Dystiolaeth y CDLl a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.
- Bydd adroddiad o sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i bob ymgynghoriad yn cael ei ddodi ar wefan y Cyngor.

3.21 **Sylwadau hwyr**

Bydd safiad y Cyngor yn gadarn ar derfynau amser a bydd yn disgwyl bod yr holl sylwadau yn cael eu gwneud erbyn y dyddiad cau penodedig. Caiff sylwadau hwyr eu derbyn yn gyfan gwbl yn ôl doethineb y Cyngor. Pan fo sylw'n hwyr, bydd y Cyngor yn caniatáu iddo aros yn unig pan fo tystiolaeth yn cael ei rhoi i ddangos sut wnaed ymgais wirioneddol i gyflwyno cyn y terfyn amser. Fel arall, caiff y broses ei hoedi gan gosbi'r rhai a gyflwynodd yn brydlon.

3.22 **Argaeledd dogfennau**

Bydd angen i ddogfennau fod ar gael ar amrywiol adegau wrth baratoi'r cynllun. Bydd yr holl ddogfennau ar gael ar wefan y Cyngor, www.sir-benfro.gov.uk. Roedd copïau papur o'r dogfennau ymgynghori hefyd ar gael yn y lleoliadau canlynol hyd at, ac yn cynnwys ymgynghoriad y cam Adneuo:

- Neuadd y Sir, Hwlffordd (y man Adneuo ffurfiol)

- Canolfan Gwasanaeth i Gwsmeriaid[2], Hwlffordd
- Llyfrgell Hwlffordd - Llyfrgell, Oriel a Chanolfan Wybodaeth Glan-yr-afon
- Llyfrgell a Chanolfan Groeso Abergwaun
- Llyfrgell a Chanolfan Groeso Aberdaugleddau
- Llyfrgell Doc Penfro
- Llyfrgell Aberteifi
- Llyfrgell Dinbych-y-pysgod
- Llyfrgell Saundersfoot
- Llyfrgell Crymych
- Llyfrgell a Chanolfan Groeso Penfro
- Llyfrgell Arberth
- Llyfrgell Trefdraeth
- Llyfrgell Neyland
- Llyfrgell Tyddewi

Ar ôl Adneuo 1 (2020), mae'r Cyngor wedi cadw dogfennau CDLl 2 yn y lleoliadau hyn, ond roedd llawer ohonynt ar gau neu'n destun agoriad cyfyngedig oherwydd Covid-19. Bydd dogfennau a gyhoeddir ar gyfer ymgynghori ar ôl Adneuo 1 yn parhau i gael eu gosod yn y lleoliadau a restrir uchod ar yr amod bod elfen o fynediad cyhoeddus ar gael. Fodd bynnag, rhoddir mwy o bwyslais ar gyfathrebu electronig trwy wefan y Cyngor neu e-byst ar ôl Adneuo.

Bydd copïau o ddogfennau priodol yn cael eu hanfon hefyd at y Cyrff Ymgynghori Penodol ar ffurf ddigidol neu drwy ddolenni gwe i'w lawrlwytho, gan ddibynnu ar faint y ddogfen. Dan amgylchiadau eithriadol (er enghraifft, os nad yw lleoliadau Adneuo yn gallu cadw copïau o ddogfennau), bydd copïau papur yn cael eu cynnig i'r rhai hynny heb y dechnoleg i ddarllen dogfennau digidol.

[2] Bydd Arweinydd Tîm y Ganolfan Gwasanaeth i Gwsmeriaid yn dal copi

3.23 **Adnoddau**

Bydd y gwaith cyfranogi ac ymgynghori'n cael ei wneud gan dîm y CDLl, mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill y Cyngor pan fo hynny'n briodol, yn bennaf y tîm Marchnata a Chyfathrebu. Mae'r Cyngor yn ffodus bod ganddo gronfa o swyddogion unigol gyda hyfforddiant a phrofiad o dechnegau hyrwyddo. Bydd y swyddogion hyn yn ymwneud â hyrwyddo ymchwil ansoddol ar ran tîm y CDLl, sy'n gallu cynnwys grwpiau canolbwyntio, gweithdai ac ati.

3.24 **Diweddariad Covid-19**

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau. O safbwynt y CDLl, daeth yr ymgynghoriad cam Adneuo i ben yn union cyn i'r cyfnod cau ddechrau ym mis Mawrth 2020.

**Hyd at a chan gynnwys yr ymgynghoriad Adneuo cyntaf, roedd gofynion Cynllun Cyfranogiad y Gymuned fel y'u lluniwyd i ddechrau yn cael eu bodloni yn y modd a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni cychwynnol.**

Wrth edrych i'r dyfodol, mae rhai agweddau o'r Cynllun Cynnwys Cymunedol wedi gorfod newid i adlewyrchu gwirioneddau newydd. Mae gan dîm CDLl drefniant gweithio hybrid ac mae ar gael trwy gydol yr wythnos dros y ffôn neu e-bost yn ystod oriau gwaith arferol. Mae dogfennau a wnaed ar gael yn flaenorol ar gael yn Neuadd y Sir, mewn Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid ac mewn Llyfrgelloedd lleol. Erbyn hyn mae rhai o gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau yn cael eu cynnal yn y cnawd ac eraill yn electronig drwy gysylltiadau cyfrifiadurol neu mewn fformat hybrid ar gyfer cyfarfodydd eraill. Mae llawer o gyfarfodydd ar gael i'w gweld yn fyw ar-lein.

Mae'r canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar Arholiadau CDLl: Canllawiau Gweithdrefnol (Tachwedd 2022) yn nodi y gellir cynnal sesiynau clywed CDLl yn bersonol neu'n rhithwir drwy fideo-gynadledda neu drwy gynadledda dros y ffôn (paragraff 5.2).

Cedwir at y dulliau o dabl ymgysylltu ym mharagraff 3.25 isod hyd at ac yn cynnwys yr ymgynghoriad cam Adneuo cyntaf. Fe'i cedwir felly fel y'i drafftiwyd i ddechrau. Mae paragraff 3.26 yn diwygio'r dulliau o ymgysylltu â'r cyhoedd a fydd yn berthnasol o'r cam ailadneuo ymlaen, mewn modd sy'n adlewyrchu'r amgylchiadau presennol.

3.25 **Amserlen a Dulliau Ymgysylltu**

Yn y tabl isod, mae manylion yr Amserlen a'r dulliau ymgynghori cysylltiedig fel y'u bwriedwyd i ddechrau ac fel y'u cymhwyswyd hyd at a chan gynnwys y cam Adneuo cyntaf. Nid yw hyn wedi'i olygu i raddau helaeth o'i gymharu â'r Cytundeb Cyflawni cychwynnol. Mae fersiwn wedi'i golygu i'w chymhwyso i'r camau ailadneuo a'r camau dilynol ym mharagraff 3.26.

| **Cyfnodau a Chamau Gweithredu Paratoi'r Cynllun a Chyfranogiad y Gymuned** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **AoG/AAS** | **ARhC** | **Pwy ddylai fod dan sylw?** | **Dulliau Cyfranogi** |
| **1 CYFNODAU PENODOL – HYD AT, AC YN CYNNWYS ADNEUO** | | | | | |
| **Adroddiad yr Adolygiad** | • Asesu materion o adroddiadau AAB<br>• Cadw cyswllt ag Aelodau.<br>• Cynnig cyfle i'r cyhoedd roi sylwadau. | | | • Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Y Cyhoedd | • Gweithdy gyda'r Aelodau<br>• Gweithdy gyda Chynghorau Tref a Chymuned<br>• Y wasg chysylltiadau cyhoeddus<br>• Rhybudd cyhoeddus<br>• Gwefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol |

| Cyfnodau a Chamau Gweithredu Paratoi'r Cynllun a Chyfranogiad y Gymuned | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **AoG/AAS** | **ARhC** | **Pwy ddylai fod dan sylw?** | **Dulliau Cyfranogi** |
| **Cytundeb Cyflawni**[3] | • Paratoi amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun<br>• Datblygu CCyG<br>• Nodi CCA Allweddol i'w ddatblygu ochr yn ochr ag Adolygiad y Cynllun<br>• Ymwneud â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Ymgynghori ar y ddogfen a'i diwygio ar ôl ymgynghori. | • Ystyried cyfnodau gwaith AoG yn yr amserlen<br>• Nodi prosesau ymgynghorol ar gyfer AoG yn CCyG | | • Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Y Cyhoedd | • Gweithdy gydag Aelodau<br>• Gweithdy gyda Chynghorau Tref a Chymuned<br>• Lledaenu gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r post ac e-bost<br>• Gwybodaeth ar wefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Datganiad i'r wasg a chysylltiadau cyhoeddus[4]<br>• Dogfen y CC ar gael i'w gweld yn y canolfannau gwasanaethu cwsmeriaid a llyfrgelloedd |
| **Cyfranogi Cyn Adneuo** [5] | • Adroddiad yr Adolygiad (gan gynnwys adolygu AAB 1-4) | • Sgrinio<br>• Adolygu polisïau, cynlluniau a rhaglenni ac amcanion | | • Rhanddeiliaid allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol | • Cyfarfodydd a thrafodaethau<br>• Gweithgorau penodol i bwnc ac ardal |

[3] Adran 63 o Ddeddf 2004; Rheoliadau CDLl 5-10 a 2015 Rheoliadau diwygio
[4] Radio Sir Benfro, WT, Pembrokeshire Herald[4], Tîm Marchnata CSP
[5] Rheoliadau CDLl 14 i 16A, 2005 / 2015

| Cyfnodau a Chamau Gweithredu Paratoi'r Cynllun a Chyfranogiad y Gymuned | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **AoG/AAS** | **ARhC** | **Pwy ddylai fod dan sylw?** | **Dulliau Cyfranogi** |
| | • Galw am dystiolaeth trydydd bartïon<br>• Adolygu sylfaen dystiolaeth y CDLl presennol<br>• Gwneud / comisiynu ymchwil ac arolygon<br>• Paratoi papurau cefndir / materion technegol i ysbrydoli trafodaethau rhanddeiliaid allweddol<br>• Ymwneud ag ymgyngoreion i ddatblygu cydsyniad ar faterion a dewisiadau strategaeth<br>• Galw am Safleoedd Ymgeisiol – a fydd yn aros ar agor am 12 wythnos | cynaliadwyedd perthnasol eraill<br>• Cytuno gyda rhanddeiliaid ar fethodoleg<br>• Casglu gwybodaeth ddechreuol<br>• Cynhyrchu adroddiad cwmpasu ac ymgynghori arno ochr yn ochr â materion allweddol<br>• Gwneud AoG/AAS o'r dewisiadau a nodwyd<br>• Cyfranogiad cynnar y cyrff ymgynghori amgylcheddol.<br>• Ymgynghori â chyrff statudol a chyrff sy'n cynrychioli buddion cymdeithasol ac economaidd ar yr Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd. | | • Cyrff ymgynghorol penodol a chyffredinol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Pobl Ifanc<br>• Sipsiwn Crwydrol | • Gweithdy gyda Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Gweithdy gyda'r Aelodau<br>• Seminar Ieuenctid<br>• Lledaenu gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r post ac e-bost<br>• Gwybodaeth ar wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Datganiad i'r wasg i hysbysebu galw am Safleoedd Ymgeisiol.<br>• Cysylltu â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned i rannu eu barn ar y dull a ddylid ei ddilyn i werthuso Safle Ymgeiswyr. |

| Cyfnodau a Chamau Gweithredu Paratoi'r Cynllun a Chyfranogiad y Gymuned | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **AoG/AAS** | **ARhC** | **Pwy ddylai fod dan sylw?** | **Dulliau Cyfranogi** |
| **Ymgynghori â'r cyhoedd cyn adneuo ar y strategaeth ddewisol a dewisiadau ac AoG/AAS/ARhC/ AA cysylltiedig** | • Cyhoeddi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol<br>• Cael cymeradwyaeth yr Aelod i'r dewisiadau strategol a'r strategaeth ddewisol<br>• Cyhoeddi, hysbysebu a dosbarthu'r Strategaeth Ddewisol.<br>• Hysbysebu cyfnod ymgynghori â'r cyhoedd yn ffurfiol<br>• Ymgynghori â'r cyhoedd yn ffurfiol ac anffurfiol (**chwe wythnos statudol)**<br>• Ymateb a rhoi sylwadau ar y sylwadau a dderbyniwyd | • Paratoi'r adroddiad AoG dechreuol (gan gynnwys AAS)<br>• Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiad cloriannu'r AoG/AAS i gefnogi'r penderfynu wrth nodi dewisiadau ffafriedig<br>• Ystyried canlyniadau yn y broses ymgynghori<br>• Ymgynghori â'r cyhoedd ar adroddiad AoG dechreuol y CDLl, ochr yn ochr â'r Strategaeth Ddewisol | • Gwneud ARhC o unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud i'r dewisiadau ffafriedig<br>• Rhoi cyhoeddusrwydd i ganlyniadau'r ARhC<br>• Gwneud ARhC o effeithiau tebygol ar Safleoedd Ewropeaidd | • Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Cyrff ymgynghorol penodol a chyffredinol<br>• Y Cyhoedd | • Seminar yr Aelodau<br>• Seminar Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Cyfarfodydd gyda grwpiau diddordeb penodol<br>• Seminar Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Datganiad i'r Wasg a chysylltiadau cyhoeddus<br>• Gwefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Ymgynghoriadau ysgrifenedig gan gynnwys e-daflenni newyddion<br>• Copïau o'r Strategaeth Ddewisol ac Adroddiad AC Dechreuol yn Neuadd y Sir ac yn y canolfannau gwasanaethu cwsmeriaid a llyfrgelloedd |

| Cyfnodau a Chamau Gweithredu Paratoi'r Cynllun a Chyfranogiad y Gymuned | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **AoG/AAS** | **ARhC** | **Pwy ddylai fod dan sylw?** | **Dulliau Cyfranogi** |
| **Paratoi ar gyfer, a chyhoeddi, y Cynllun Adneuo cyntaf[6]** | • Ymateb a rhoi sylwadau ar ffurf Adroddiad Ymgynghori Dechreuol<br>• Cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar Strategaeth Ddewisol ac unrhyw newidiadau<br>• Rhoi cyhoeddusrwydd i Strategaeth Ddewisol fel y newidiwyd<br>• Ymgynghori ar bolisïau lleol a chynigion manwl<br>• Cael cymeradwyaeth y Cyngor i'r Cynllun Adneuo<br>• Cyhoeddi, dosbarthu, hysbysebu ac ymgynghori ar y CDLl Adneuo gan gynnwys dogfennau cefnogi (**chwe wythnos statudol)**<br>• Gweld bod sylwadau ar gael i'r cyhoedd | • Gwneud AoG/AAS o effeithiau polisïau a chynigion manwl y Cynllun Adneuo.<br>• Adneuo adroddiad yr AoG yn ffurfiol<br>• Ymgynghori â'r cyhoedd ar ddrafft yr AoG<br>• Cynnwys adroddiad AoG/AAS gyda'r Cynllun Adneuo<br>• Gofyn i gyflwynwyr sylwadau gyflwyno AoG/AAS ar gyfer Safleoedd Eraill | • ARhC o'r Cynllun Adneuo'n ofynnol<br>• Cynnwys ARhC yn y cynigion adneuo i'w cyhoeddi<br>• ARhC o gynigion ar gyfer Safleoedd Eraill | • Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Holl gyrff ymgynghorol penodol a chyffredinol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Y Cyhoedd<br>• Pobl Ifanc<br>• Sipsiwn Crwydrol | • Y Wasg a chysylltiadau cyhoeddus<br>• Gwefan CSP.<br>• Cyfryngau cymdeithasol CSP<br>• Ymgynghoriadau ysgrifenedig – llythyr ac e-bost<br>• Copïau o'r cynllun ar gael yn Neuadd y Sir, gwasanaethau cwsmeriaid a llyfrgelloedd.<br>• Gweithdai seiliedig ar ardal a fydd ar agor i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned a'r cyhoedd.<br>• Seminar Ieuenctid<br>• Seminar Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Seminar Aelodau<br>• Cyfarfodydd gyda grwpiau / buddiannau penodol. |

[6] Rheoliadau CDLl 17 i 19, 2005 / 2015

| Cyfnodau a Chamau Gweithredu Paratoi’r Cynllun a Chyfranogiad y Gymuned | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **AoG/AAS** | **ARhC** | **Pwy ddylai fod dan sylw?** | **Dulliau Cyfranogi** |
| | • Cyhoeddi canlyniad cyntaf pob cyflwyniad Safle Ymgeisiol.<br>• Noder, mae sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori Adneuo cyntaf wedi'u cadw gan y Cyngor, ond ni fyddant yn cael eu cyflwyno i Aelodau na'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru a Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) oherwydd bod y cam hwn o broses y Cynllun yn cael ei ailadrodd ar sail Cynllun diwygiedig. | | | | |
| **2. CYFNODAU ADNEUO** | | | | | |
| Gweler paragraff 3.26 | | | | | |

3.26 Tabl diwygiedig gyda newidiadau canlyniadol i'r dulliau ymgysylltu â'r cyhoedd i adlewyrchu'r amgylchiadau presennol, ar ôl Covid-19. Mae'r tabl yn cael ei atgynhyrchu a'i ddiwygio ar gyfer y camau o'r ymgynghoriad ail-Adneuo a camau dilynol.

| **Cyfnodau a Chamau Gweithredu Paratoi'r Cynllun a Chyfranogiad y Gymuned** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **AoG/AAS** | **ARhC** | **Pwy ddylai fod dan sylw?** | **Dulliau Cyfranogi** |
| **Paratoi ar gyfer y Cynllun ail-adneuo a'i gyhoeddi**[7] | • Rhoi adborth a sylwadau ar ffurf Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol<br><br>• Adroddiad i'r Cyngor ar y Strategaeth a ffefrir ac unrhyw newidiadau<br><br>• Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Strategaeth a Ffefrir fel y newidiwyd<br><br>• Ymgynghori ar bolisïau a chynigion lleol manwl<br><br>• Cael cymeradwyaeth y Cyngor i'r Cynllun Adneuo | • Ymgymryd â SA/SEA o effeithiau polisïau manwl a chynigion o'r Cynllun ailadneuo.<br><br>• Adneuo ffurfiol adroddiad SA<br><br>• Ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft SA<br><br>• Adroddiad SA/SEA wedi'i gynnwys gyda Chynllun Adneuo<br><br>Gofynnwch i gynrychiolwyr gyflwyno SA / SEA ar gyfer Safleoedd Amgen | • HRA o'r Cynllun Adneuo sydd ei angen.<br><br>• Cynnwys HRA yn y cynigion adneuo i'w cyhoeddi<br><br>HRA o gynigion ar gyfer Safleoedd Amgen | • Rhanddeiliaid Allweddol<br><br>•Aelodau<br><br>• Ymgynhorwyr Mewnol<br><br>• Pob corff ymgynghori penodol a chyffredinol<br><br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br><br>• Cyhoeddus Cyffredinol<br><br>• Pobl ifanc<br><br>• Sipsi a Theithwyr | • Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus<br><br>• Gwefan PCC<br><br>• Cyfryngau cymdeithasol CSP<br><br>• Ymgynghoriadau ysgrifenedig – llythyr a / neu e-bost<br><br>• Copiau o'r cynllun sydd ar gael yn Neuadd y Sir, yn y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ac yn y Llyfrgelloedd<br><br>• Sioeau teithiol seiliedig ar ardal, fydd ar agor ar gyfer Cynghorau Dinas, |

[7] Rheoliadau CDLl 17 i 19, 2005 / 2015

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Cyhoeddi, dosbarthu, hysbysebu ac ymgynghori ar y CDLl ailadneuo gan gynnwys dogfennau ategol (chwe wythnos statudol)<br><br>• Sicrhau bod sylwadau ar gael i'r cyhoedd<br><br>Cyhoeddi canlyniad cychwynnol pob cyflwyniad Safle Ymgeisydd. | | | | Tref a Chymuned a'r cyhoedd<br><br>• Seminar rhanddeiliaid allweddol<br><br>• Seminarau aelodau<br><br>• Cyfarfodydd gyda grwpiau/diddordebau penodol, fel bo'r angen. |
| **Sylwadau ar gynigion Adneuo'r CDLl – crynhoi ac ymateb i sylwadau** | • Paratoi ymateb ffurfiol CSP i sylwadau Adneuo a chyhoeddi'r rhain ar wefan y Cyngor<br>• Trafod gwrthwynebiadau strategol a/neu sylweddol gydag ymatebwyr a diweddaru Adroddiad yr Ymgynghori<br>• Cyhoeddi dogfen Newidiadau â Ffocws ar gyfer ymgynghori | | | • Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Holl gyrff ymgynghorol penodol a chyffredinol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Y Cyhoedd | • Trafodaeth ar-lein gydag Aelodau<br>• Trafodaethau ar-lein gyda Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Gwefan CDP a'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Lledaenu gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r post a/neu e-bost<br>• Delio ag ymholiadau gan y cyhoedd dros y ffôn a / neu gyfarfodydd yn y cnawd neu rithwir |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Postio copïau caled i'r cyhoedd os na allant gael mynediad i'r rhyngrwyd ac os na all llyfrgelloedd a chanolfannau cyswllt gadw dogfennau neu os nad ydynt ar agor. |
| **Cyflwyniad[8] – paratoi argymhellion a rhoi adroddiad ar holl sylwadau a dderbynnir i'w cyflwyno i'r archwiliad** | • Terfynu ymateb a sylwadau ar ffurf diweddariad o'r Adroddiad Ymgynghori<br>• Cyflwyno'r Cynllun Adneuo fel y'i diwygiwyd gan Newidiadau â Ffocws, adroddiad yr AoG (gan gynnwys AAS), ARhC, Cynllun Cyfranogiad y Gymuned, Adroddiad Ymgynghori, sylwadau a dogfennau cefnogi (gan gynnwys y sylfaen dystiolaeth) i Lywodraeth Cymru a Phenderfyniadau Cynllunio ac | Cyflwyno Adroddiad yr SA (gan gynnwys SEA) gyda'r Cynllun Adneuo i Lywodraeth Cymru a Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW). | • Cyflwyno adroddiad yr ARhC cylchol | • Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Aelodau<br>• Holl gyrff ymgynghorol penodol a chyffredinol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Y Cyhoedd | • Y Wasg a chysylltiadau cyhoeddus<br>• Gwefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Cyfathrebu ar-lein a thros y ffôn gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd (defnyddir dogfennau papur fel dull amgen mewn amgylchiadau eithriadol)<br>• Copïau o ddogfennau mewn mannau allweddol, yn amodol ar fynediad cyhoeddus yn dal i fod ar gael (Neuadd y Sir, Hwlffordd, sef y man Adneuo, Canolfannau Gwasanaethu |

[8] Adran 64 o Ddeddf 2004; Rheoliadau CDLl 22-23 2005/ 2015

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Amgylchedd Cymru (PEDW)<br>• Cenedlaethol a'r Arolygiaeth Gynllunio | | | | Cwsmeriaid y Cyngor a llyfrgelloedd lleol) |
| **Cyhoeddus-rwydd Cyn Archwiliad** | • Hysbysebu a hysbysu pawb â diddordeb o fanylion cysylltiedig â'r Archwiliad | | | | • Gwefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Datganiad i'r wasg<br>• Lledaenu gwybodaeth ysgrifenedig drwy e-bost a'r post |
| **Arolwg Annibynnol - Arolygydd Annibynnol yn archwilio cadernid y CDLl** | • Newidiadau Materion yn Codi a Newidiadau'r Arolygydd, gydag ymgynghori cysylltiedig | • AoG / AAS o MAC ac IC | • ARhC o MAC ac IC, os bydd angen | • Pawb sydd â sylwadau ffurfiol heb eu tynnu'n ôl (h.y. y rhai sydd wedi cynnal eu sylwadau ffurfiol) – mae'n bosibl y bydd y cyfle hwn ar gael ar-lein yn unig i sicrhau bod modd cadw at ofynion pellhau cymdeithasol<br>• Agored i'r cyhoedd i gyd weld hyn, ond mae'n bosibl y bydd y cyfle hwn ar gael ar-lein yn unig i sicrhau bod modd cadw at ofynion pellhau cymdeithasol | • Gwefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol (MAC ac IC)<br>• Datganiad i'r wasg (MAC ac IC)<br>• Archwiliad gan yr Arolygydd – cyfres o wrandawiadau cyhoeddus a allai gael eu cynnal yn y cnawd neu'n rhithwir<br>• Lledaenu gwybodaeth ar unrhyw ymgynghoriad MAC ac IC drwy e-bost a/neu'r post |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Gall pawb ymateb i'r ymgynghoriad MAC ac IC | |
| **Wedi'r arolwg cyhoeddus – Adroddiad yr Arolygydd[9]** | • Gwneud unrhyw waith pellach sydd ei angen<br>• Ymgorffori unrhyw newidiadau yn ôl cyfarwyddyd yr Arolygydd | | | • Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Aelodau<br>• Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Y Cyhoedd | • Datganiad i'r wasg<br>• Gwefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Lledaenu gwybodaeth os oes angen drwy e-bost a/neu'r post |
| **Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd** | • Nodi unrhyw wallau ffeithiol yn fersiwn drafft Adroddiad yr Arolygydd a hysbysu'r Arolygydd o ganlyniad<br>• Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd mor fuan ag y bo modd ar ôl ei dderbyn (rhaid ei gyhoeddiad cyn pen 8 wythnos ar ôl dderbyn).<br>• Hysbysu'r rhai sydd â diddordeb o gyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd | | | • Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Yr Aelodau<br>• Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Y Cyhoedd | • Datganiad i'r wasg a hysbysiad ar wefan CSP / cyfryngau cymdeithasol bod adroddiad yr Arolygydd wedi'i gyhoeddi ac ar gael<br>• Lledaenu gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r post a/neu e-bost |

[9] Adran 64 o Ddeddf 2004; Rheoliad CDLl 24 2005 /. 2015

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mabwysiadu'r CDLI**[10] | • Hysbysu ymgyngoreion o fabwysiadu, ynghyd â phawb arall sydd wedi gofyn am gael eu hysbysu<br>• Cyhoeddi datganiad mabwysiadu<br>• Cyhoeddi a gweld bod adroddiad y CDLI a'r AoG ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg<br>• Cynhyrchu cynigion ar gyfer arolygu | • Terfynu adroddiad yr AoG | • Cyhoeddi adroddiad ARhC | | • Rhybudd Cyhoeddus<br>• Datganiad i'r wasg a hysbysiad ar wefan CSP / cyfryngau cymdeithasol bod adroddiad yr Arolygydd wedi'i gyhoeddi ac ar gael<br>• Lledaenu gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r post a/neu e-bost |
| **Arolygu Blynyddol**[11] | Anfon Adroddiad Arolygu Blynyddol o'r CDLI Amgen i Lywodraeth Cymru ar 31 Hydref bob blwyddyn gan ddechrau ar y flwyddyn lawn gyntaf (1 Ebrill i 31 Mawrth) ar ôl mabwysiadu'r cynllun a chyhoeddi hyn ar wefan CSP | • Arolygu effeithiau'r cynllun<br>• Adolygu gwybodaeth sylfaenol AAS a thueddiadau a phorthi'r adolygiad | | | Hysbysu Llywodraeth Cymru<br>• Gwefan CSP<br>• Cyfryngau cymdeithasol (lle bo'n briodol) |

[10] Adran 67 o Ddeddf 2004; Rheoliadau CDLI 25, 25A a 39 2005 / 2015
[11] Adrannau 69, 70 a 76 o Ddeddf 2004; Rheoliadau CDLI 3, 25A a 41) 2005 / 2015

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Dechrau adolygu'r CDLl Amgen os bydd angen trwy AAB neu bedair blynedd ar ôl ar ôl ei fabwysiadu sut bynnag | | | | |

3.27 **Cod Ymarfer Ymgynghori**

Yn gyffredinol, dylai'r cyrff ymgynghori ac ymgyngoreion unigol:

- Ymateb i ymholiadau o fewn cyfnod rhesymol (h.y. 15 diwrnod gwaith).
- Ymdrechu i amrywio cylch cyfarfodydd ar faterion allweddol fel y CDLl i alluogi amseroedd ymateb rhesymol.
- Dangos ymroddiad i'r broses trwy fynychu, cyfrannu a chynorthwyo proses ceisio cael cydsyniad yn gyffredinol.
- Gwrando a chyfranogi yn y ddadl gyda meddwl agored.
- Codi materion datblygu / gofodol dilys y mae modd i'r CDLl a'r gyfundrefn gynllunio ddylanwadu arnynt / eu rheoli.
- Nodi safleoedd i'w hystyried ar gyfer datblygiad posibl yn gynnar, gan gynnwys tir a neilltuwyd yn y cynllun (hysbysebwyd cyfleoedd i gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol yng nghamau cynnar y broses)
- Tynnu sylw at unrhyw fylchau yn y data / gwybodaeth sydd ar gael (mae hyn yn arbennig o bwysig i'r cyrff ymgynghori ffurfiol yn yr AoG/AAS ar gyfer y CDLl).
- Sicrhau eu bod yn deall y cyd-destun ehangach ac yn cyfranogi ac ymateb yn gyfrifol.
- Sicrhau bod ymatebion yn cael eu gwneud o fewn y cyfnod ymgynghori statudol, fydd yn chwe wythnos fel arfer. Fodd bynnag, rhoddwyd cyfnod hwy ar gyfer cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol.
- Sicrhau bod eu hymateb yn cael ei anfon i'r cyfeiriad a, phan fo hynny'n briodol, at yr unigolyn penodedig cyn diwedd ffurfiol y cyfnod ymgynghori (a fydd, fel arfer, yn chwe wythnos) ar y ffurf a bennwyd ble bynnag y bo modd.
- Cynnwys yn eu hymateb yr holl wybodaeth berthnasol i'w hystyried gan y Cyngor ar ffurf sy'n hygyrch i bawb, er mwyn galluogi ystyried y sylwadau'n ddidwyll ac agored.
- Darparu enwau a manylion cysylltu priodol i ganiatáu ymateb ac atebion gan y Cyngor.
- Bod yn ymwybodol y bydd holl ohebiaeth (oni bai y nodwyd yn 'gydgyfrinachol'), holl ymatebion a holl sylwadau'n eiddo cyhoeddus, ac i'w priodoli i'r awdur.

Yn yr Archwiliad, dylai'r cyrff ymgynghori ac ymgyngoreion unigol:

- Dilyn trefnau priodol yr Archwiliad.
- Sicrhau bod unrhyw ohebiaeth yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad a, phan fo hynny'n briodol, yr unigolyn a bennwyd gan yr Arolygydd Cynllunio. Cyfathrebu electronig yw'r dull a ffefrir er mwyn lleihau'r angen i gyffwrdd â dogfennau papur.
- Cynnwys yn y dystiolaeth a gyflwynwyd yr holl wybodaeth berthnasol i'r Arolygydd ei hystyried ar ffurf sy'n hygyrch i bawb, er mwyn galluogi ystyried y sylwadau'n ddidwyll ac agored.
- Darparu enwau a manylion cysylltu priodol i ganiatáu ymateb ac atebion gan yr Arolygydd Cynllunio.

- Deall bod adroddiad yr Arolygydd yn rhwymo'r Cyngor ac nad oes unrhyw gyfle i apelio ynghylch argymhellion yr Arolygydd a'r rhesymau dros yr argymhellion hynny.

Mae'n bwysig bod y cyrff ymgynghori ac ymgyngoreion unigol yn y broses yn cadw at yr ymrwymiadau uchod, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu atal unrhyw oediadau diangen wrth lunio'r Cynllun Datblygu ac, yn bwysig, yn ateb y gofynion a bennwyd yn y Cytundeb Cyflawni fel y'u diwygiedig ymhellach (y ddogfen hon).

3.28 **Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol**

Bydd hwn yn cael ei dynnu o'r sefydliadau / grwpiau canlynol:

- Heddlu Dyfed Powys
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
- Cyfoeth Naturiol Cymru[12]
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Aelodau Cyngor Sir Penfro
- Ymgyngoreion Mewnol Cyngor Sir Penfro
- Coleg Sir Benfro
- Llywodraeth Cymru

3.29 **Cyrff a Sefydliadau Ymgynghori**

A) Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned lleol i Sir Benfro

- Cyngor Tref Abergwaun ac Wdig
- Cyngor Tref Hwlffordd
- Cyngor Tref Aberdaugleddau
- Cyngor Tref Arberth
- Cyngor Tref Trefdraeth
- Cyngor Tref Neyland
- Cyngor Tref Penfro
- Cyngor Tref Doc Penfro
- Cyngor Dinas Tyddewi
- Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod
- Cyngor Cymuned Treamlod
- Cyngor Cymuned Llanrhath

[12] Gan gynnwys y Comisiwn Coedwigaeth, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

- Cyngor Cymuned Angle
- Cyngor Cymuned Boncath
- Cyngor Cymuned Breudeth
- Cyngor Cymuned Burton
- Cyngor Cymuned Camros
- Cyngor Cymuned Caeriw
- Cyngor Cymuned Cilgerran
- Cyngor Cymuned Clunderwen
- Cyngor Cymuned Clydau
- Cyngor Cymuned Cosheston
- Cyngor Cymuned Crymych
- Cyngor Cymuned Cwm Gwaun
- Cyngor Cymuned Dale
- Cyngor Cymuned Dinas Cross
- Cyngor Cymuned East Williamston
- Cyngor Cymuned Eglwyswrw
- Cyngor Cymuned Freystrop
- Cyngor Cymuned Cas-lai
- Cyngor Cymuned Herbrandston
- Cyngor Cymuned Hook
- Cyngor Cymuned Hundleton
- Cyngor Cymuned Jeffreyston
- Cyngor Cymuned Johnston
- Cyngor Cymuned Cilgeti / Begeli
- Cyngor Cymuned Llanbedr Efelffre
- Cyngor Cymuned Llandyfái
- Cyngor Cymuned Treletert
- Cyngor Cymuned Llanddewi Efelffre
- Cyngor Cymuned Gorllewin Llandysilio
- Cyngor Cymuned Llangwm
- Cyngor Cymuned Llanrhian
- Cyngor Cymuned Llanstadwel
- Cyngor Cymuned Llanhuadain
- Cyngor Cymuned Maenclochog
- Cyngor Cymuned Maenorbŷr
- Cyngor Cymuned Maenordeifi
- Cyngor Cymuned Marloes a Sain Ffred
- Cyngor Cymuned Martletwy
- Cyngor Cymuned Mathri
- Cyngor Cymuned Pont Fadlen
- Cyngor Cymuned Mynachlog-ddu

- Cyngor Cymuned Nanhyfer
- Cyngor Cymuned y Mot
- Cyngor Cymuned Nolton a'r Garn
- Cyngor Cymuned Penalun
- Cyngor Cymuned Pencaer
- Cyngor Cymuned Cas-mael
- Cyngor Cymuned Rhosfarced
- Cyngor Cymuned Rudbaxton
- Cyngor Cymuned Llandudoch
- Cyngor Cymuned St Florence
- Cyngor Cymuned Llanisan
- Cyngor Cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod
- Cyngor Cymuned Saundersfoot
- Cyngor Cymuned Scleddau
- Cyngor Cymuned Solfach
- Cyngor Cymuned Spittal
- Cyngor Cymuned Ystagbwll a Chastellmartin
- Cyngor Cymuned Tredeml
- Cyngor Cymuned yr Hafan
- Cyngor Cymuned Tiers Cross
- Cyngor Cymuned Uzmaston, Boulston a Slebets
- Cyngor Cymuned Castell Gwalchmai
- Cyngor Cymuned Cas-wis
- Cyngor Cymuned Cas-blaidd

Cynghorau Cymuned yn ffinio â Sir Benfro yng Ngheredigion

- Cyngor Cymuned Beulah
- Cyngor Cymuned Llangoedmor
- Cyngor Cymuned y Ferwig
- Cyngor Tref Aberteifi

Cynghorau Cymuned yn ffinio â Sir Benfro yn Sir Gâr

- Cyngor Cymuned Eglwys Gymyn
- Cyngor Cymuned Tref Hendy-gwyn ar Daf
- Cyngor Cymuned Henllan Fallteg
- Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd
- Cyngor Cymuned Llanboidy
- Cyngor Cymuned Llanwinio
- Cyngor Cymuned Trelech
- Cyngor Cymuned Cenarth

B) Cyrff Ymgynghori Penodol[13]

- Llywodraeth Cymru[14]
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cadw
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Network Rail Infrastructure Limited
- SSE[15], British Gas, Countrywide Energy, Ecotricity, Good Energy, EDF Energy[16], National Grid[17], Npower, E.ON, Western Power Distribution, Dŵr Cymru, Isadran Gweithfeydd Peryglus yr Awdurdog Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Utilita, Cable and Wireless Communications
- Yr Adran Drafnidiaeth (gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar gyfer swyddogaethau blaenorol yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol)
- Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
- Y Swyddfa Gartref (materion amddiffyniad sifil; polisïau ar garcharau ac ati)
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda

C) Cyrff Ymgynghori Cyffredinol

(i) Cyrff gwirfoddol yn elwa'r ardal

- Age Concern
- Rhoi Cymunedau'n Gyntaf (Hwlffordd - Garth, Doc Penfro - Canolog, Llanion a Phennar, Penfro - Cil-maen a Gogledd y Santes Fair)
- Hafal
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro[18]
- Cymdeithas Ofal Sir Benfro
- Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro
- Ffermwyr Ifanc Sir Benfro
- Shelter Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Gweithredu dros Iechyd y Meddwl yng Ngorllewin Cymru

[13] Gwelwch Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol - Argraffiad 3 (2015) (Llywodraeth Cymru 2020)
[14] Mae Llawlyfr y CDLl yn cynghori y bydd yr Isadran Gynllunio'n cydgysylltu ymgynghoriadau ar ran Llywodraeth Cymru
[15] Gan gynnwys SWALEC, Scottish & Southern Electricity Networks, Southern Electric, Scottish Hydro & Airtricity
[16] Gan gynnwys SWEB
[17] Gan gynnwys Transco. Gweithredwyr yng Nghymru yw Wales & West Utilities
[18] Mae PAVS yn cynrychioli amrywiaeth o grwpiau cymunedol ac elusennol yn ein sir, gan gynnwys grwpiau celfyddyd, grwpiau plant, grwpiau anabledd, grwpiau amgylchedd a threftadaeth, grwpiau crefyddol, ac ati.

- Youth Hostel Association

(ii) Cyrff yn cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol yn yr ardal

- Cyngor ar Bopeth
- Comisiwn Cyfle Cyfartal Cymru
- Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr
- Grŵp Llywio Sipsiwn Teithwyr Sir Benfro (aros am ddiweddariad y wefan ar adeg ysgrifennu)
- Cydgysylltydd Cydlyniad Cymunedol Rhanbarthol Sir Benfro, Sir Gâr, Ceredigion a Phowys (dim gwefan)
- Y Sefydliad Lleiafrifoedd Ethnig

(iii) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol yn yr ardal

- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Ffederasiwn Annibynwyr Cymru
- Cyngor Mwslimiaid Cymru
- Y Crynwyr
- Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru
- Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr
- Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Cenhadaeth Uniongred Cymru

(iv) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl yn yr ardal

- Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl
- Anabledd Cymru
- Cymdeithas Deillion Sir Benfro
- Mind Sir Benfro
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar
- Cyngor Cymru i'r Deillion
- Cyngor Cymru i Bobl Fyddar

(v) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl fusnes yn yr ardal

- Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain
- Yr Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)
- Cymdeithas y Tirfeddiannwyr a Busnes
- Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol
- Undeb Amaethwyr Cymru

- Fdederasiwn y Meistri Adeiladu
- Ffederasiwn y Busnesau Bach
- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
- NFU Cymru
- Cymdeithas Amaethyddol Sir Benfro
- Menter Busnes Sir Benfro
- Rhwydwaith Busnes Sir Benfro
- Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu (PLANED)
- Twristiaeth Sir Benfro
- Grŵp Trenau Nwyddau
- Sefydliad Cyfarwyddwyr De a Gorllewin Cymru
- Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru
- Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru

(vi) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymreig

- Cymuned
- Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed[19]
- Menter Iaith Sir Benfro
- Cymdeithas yr Iaith

D) Ymgyngoreion Eraill

- Afonydd Cymru
- Cymdeithas Gweithredwyr Meysydd Awyr
- Cymdeithas Agregau Prydain
- Arolwg Daearegol Prydain – Cymru
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Glandŵr Cymru
- Yr Awdurdod Hedfan Sifil
- Yr Awdurdod Glo
- Grwpiau Cominwyr – Swyddog Tir Comin CSP, Cymdeithas Tir Agored
- Ystad y Goron
- Comisiwn Dylunio Cymru
- Gwerthwyr Tai – JJ Morris, Town Coast and Country Estates, FBM, John Francis, Brett Property, Advance Properties, Guy Thomas, R. K. Lucas & Son, West Wales Properties, Popular Move
- Gweithredwyr Fferi – StenaLine, Irish Ferries
- Meysydd Chwarae Cymru
- Siambr Fasnach a Thwristiaeth Abergwaun ac Wdig
- Y Gymdeithas Gludiant

[19] Gan gynnwys Cambria Archaeology

- Friends of the Earth Pembrokeshire
- Maes Awyr Hwlffordd
- Siambr Fasnach Hwlffordd
- Cymdeithas Ddinesig Hwlffordd
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
- Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol (http://www.mineralproducts.org/)
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Siambr Fasnach Arberth
- Cymdeithas Ddinesig Arberth
- Un Llais Cymru
- Dysgu Awyr Agored Cymru
- Cymdeithas Cynghorau Lleol Sir Benfro (PALC)
- Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro
- Siambr Fasnach Penfro
- Ymddiriedolaeth Adeiladau Hanesyddol Sir Benfro
- Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro
- Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro
- Penfro 21C
- Cymdeithas Hanes Lleol Penfro a Chil-maen
- Cymorth Cynllunio Cymru
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Rhwydwaith Amgylcheddol Sir Benfro
- Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Canolfan Wybodaeth am Fioamrywiaeth Gorllewin Cymru
- Grŵp Cadwraeth Forol Gorllewin Cymru
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
- Diwydiant Datblygu Lleol, Penseiri, Cyrff Cynllunio ac Ymgynghorwyr – Acanthus Holden, Celtic Homes Ltd, CK Planning, FB Fisher Associates, Guy Thomas & Co, Harries Design & Management, Hayston Developments & Planning Ltd, Ian Bartlett, James Dwyer Associates, Ken Morgan Design and Building Management Ltd, Kinver Kreations Ltd, Pembroke Design, Pembroke Developments, Sureline Design Services Ltd, Tim Colquhoun Architect, W A Spees Architect. Bydd Cyngor Sir Penfro hefyd yn cynnal Fforwm Asiantau Cynllunio Sir Benfro bob mis.
- Gweithredwyr Cludiant Lleol – S.L Bell Minibuses, Edwards Coaches, E J Evans, First Cymru, Midway, Y Brodyr Richards Bros, Summerdale, Taf Valley, Arriva Trains Cymru, Edwards Bros (run by PCC)

- Cynrychiolwyr a Buddiannau Gwleidyddol – Stephen Crabb AS, Simon Hart AS, Angela Burns AC, Paul Davies AC, Eluned Morgan AC, Simon Thomas AC, Joyce Watson AC
- Gweithredwyr Mwynau – GD Harries & Sons Ltd, Mansel Davies & Sons, D H & G L Lawrence, Mason Bros Quarry Products Ltd, Mr F L Credland, Mr E Evans, Mrs L Griffiths, Mr M Evans, Mr G James ac EA & NW Jones
- Gwared Gwastraff – Griffiths Waste Solutions Ltd (GWS), Wales Environmental, Enviroventure, AJ Recycling, Prowaste, Agrivert, LAS, Potters, DH & GL Lawrence a TBS

3.30 **Dadansoddi dulliau ymgynghori**

| **Dull** | **Manteision** | **Anfanteision** | **Adnoddau** |
|---|---|---|---|
| Llythyrau | • Gallu cysylltu â nifer mawr o bobl<br>• Cyswllt uniongyrchol | • Gall fod yn ddrud<br>• Mae'n mynd ag amser<br>• Mae'n eithrio pobl anllythrennog | Cymedrol – amser staff |
| Defnyddio gwefan y Cyngor a chyfryngau cymdeithasol e.e. Weplyfr | • Caniatáu cael gafael ar lawer o wybodaeth<br>• Rhwydd a chyflym ei ddiweddaru<br>• Anelu at gynulleidfa iau (grŵp anodd ei gyrraedd)<br>• Rhad | • Nid pawb sydd â'r rhyngrwyd<br>• Rhaid ei ddiweddaru'n rheolaidd rhag cael effaith andwyol<br>• Mae'n eithrio pobl anllythrennog | Isel – amser staff |
| E-bost | • Cyflymach a mwy cost-effeithiol na phostio | • Ni all gysylltu â phobl heb gyfeiriadau e-bost<br>• Mae'n eithrio pobl anllythrennog | Isel – amser staff |
| Dogfennau ar gael i'w harchwilio yn Swyddfa'r Cyngor ac mewn llyfrgelloedd a chanolfannau gwasanaethu cwsmeriaid | • Mae'n cyflawni rhan o'r gofyniad statudol lleiaf<br>• Mynediad rhydd a rhwydd yn ystod oriau gwaith arferol | • Materion mynediad i bobl heb gludiant<br>• Efallai na fydd pobl sy'n gweithio yn ystod y dydd yn gallu cael mynediad<br>• Mae'n eithrio pobl anllythrennog<br>• Efallai na fydd yn bosibl i'r cyhoedd gael mynediad i swyddfeydd y Cyngor, llyfrgelloedd a chanolfannau gwasanaeth cwsmeriaid, neu efallai bydd cyfyngiadau o ganlyniad i bandemig Covid-19. | Isel – amser staff |

| Dull | Manteision | Anfanteision | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| Y wasg leol a chysylltiadau cyhoeddus | • Cynulleidfa eang<br>• Tynnu sylw | • Gall fod yn ddrud<br>• Fe all ei effaith fod yn gyfyng<br>• Mae'n eithrio pobl anllythrennog | Cymedrol – costau hysbysebu rhybuddion |
| Radio – Radio Sir Benfro | • Mynediad at gynulleidfa eang<br>• Tynnu sylw | • Gall fod â goblygiadau cost | Cymedrol – costau hysbysebion |
| Taflenni / taflen newyddion | • Gall ddarparu ymateb rheolaidd | • Costau cynhyrchu a chludiant | Cymedrol – costau cynhyrchu / amser staff |
| Arolygon | • Cyfle i bobl fynegi barn | • Fe all fod ychydig o ymateb, ac efallai nad yw'n gynrychiadol | Cymedrol – costau cynhyrchu a phostio |
| Sioeau Teithiol / Arddangosfeydd / Cynhadledd | • Ffordd dda o ledaenu gwybodaeth<br>• Cyfle i gyfarfod pobl wyneb yn wyneb i gael eu barn / trafod materion | • Gall fod yn annodd i rai pobl fynd yno<br>• Mae mynychwyr yn hunanddewisol<br>• Mae angen eu cynnal mewn amrywiaeth o fannau / ac adegau i fod yn effeithiol<br>• Gallant fod yn ddrud<br>• Dibynnu ar CSP i ddehongli a chofnodi'r hyn sy'n cael ei ddweud<br>• Amhosibl yn y cyfnod ôl-Adneuo oherwydd Covid-19 a rheoliadau pellhau cymdeithasol cysylltiedig | Uchel – amser staff, costau dylunio arddangosfeydd |
| Cymorthfeydd mewn cymunedau lleol | • Mae modd eu cynnal mewn ardaloedd nad ydynt yn hygyrch fel arfer | • Mynd ag amser<br>• Methu mynd i bob ardal gymunedol<br>• Dibynnu ar CSP i ddehongli a chofnodi'r hyn sy'n cael ei ddweud | Cymedrol / Uchel – amser staff |

| Dull | Manteision | Anfanteision | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| | • Cyfle da i gyfarfod pobl i gael eu barn / trafod materion | • Amhosibl yn y cyfnod ôl-Adneuo oherwydd Covid-19 a rheoliadau pellhau cymdeithasol cysylltiedig | |
| Gweithdai / Grwpiau Canolbwyntio | • Trafodaeth strwythuredig<br>• Mae modd cyfeirio at grwpiau arbennig<br>• Cyfle i edrych ar faterion yn drylwyr | • Mae angen hwyluso gofalus i sicrhau y gall pawb fynegi barn<br>• Dibynnu ar CSP i ddehongli a chofnodi'r hyn sy'n cael ei ddweud<br>• Gellir cynnal hyn trwy gynhadledd fideo i sicrhau pellhau cymdeithasol | Cymedrol – mae angen hwyluswyr grwpiau canolbwyntio |
| Cyfarfodydd Cyhoeddus | • Cyfarfod agored<br>• Cyfranogi mewn trafodaeth | • Gallant fod dan ddylanwad cymeriadau cryf gan fethu cael barn gynrychiadol<br>• Angen paratoi gofalus a chadeirio cryf<br>• Dibynnu ar CSP i ddehongli a chofnodi'r hyn sy'n cael ei ddweud<br>• Amhosibl yn y cyfnod ôl-Adneuo oherwydd Covid-19 a rheoliadau pellhau cymdeithasol cysylltiedig ond gellir cynnal hyn trwy gynhadledd fideo os oes angen. | Uchel – amser staff. Cyfranogiad staff uwch |

## 4 Arolygu ac Adolygu

Cytundeb Cyflawni

4.1 Nid oedd disgwyl ar y dechrau y byddai angen newid y Cytundeb Cyflawni yn dilyn ei fabwysiadu gan y Cyngor ac ardystiad Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nodwyd tri o amgylchiadau a allai beri bod angen adolygu'r Cytundeb Cyflawni:

- Os byddai paratoi'r Cynllun yn mynd ar ei hôl hi (h.y. roedd llithriant o fwy na thri mis);
- Os oedd angen newidiadau arwyddocaol i Gynllun Cyfranogiad y Gymuned; a / neu
- Os byddai newidiadau sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael i adolygu'r Cynllun.

Gelir ychwanegu eitem bellach nawr:

- Os bydd pandemig byd-eang

4.2 Bydd y Cyngor yn cadarnhau bod cydymffurfio ag amcanion y Cytundeb Cyflawni ymhob prif gyfnod o broses y Cynllun.

4.3 Roedd amseriadau y tu hwnt i'r cyfnod Adneuo'n arwyddol. Yn y cyfnod ôl-Adneuo, mae'r amseriadau diweddarach hyn wedi cael eu gwirio ac mae cyfres o amseriadau pendant ar gyfer y cyfnodau diweddarach hyd at Gyflwyno wedi'u cael eu paratoi a'u cynnwys yn y ddogfen hon. Mae'r rhain wedi ystyried llithriad yn sgil pandemig Covid-19 a chyfyngiadau parhaus sy'n dilyn o hyn. Mae dyddiadau ar gyfer y cyfnodau arwyddol y tu hwnt i Gyflwyno wedi'u diwygio hefyd, ond yn dal i fod yn arwyddol. Fe gaiff y Cytundeb Cyflawni diwygiedig ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer ei gymeradwyo.

Cynllun Datblygu Lleol

4.4 Mae gofyn gwneud adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol bedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu. Mae'r un gofyniad yn berthnasol i Gynllun Amgen – bydd gofyn gwneud adolygiad llawn bedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu.

4.5 Bydd Adroddiadau Arolygu Blynyddol ar y CDLl Amgen yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn yn dilyn y flwyddyn lawn gyntaf (Ebrill i Fawrth) ar ôl mabwysiadu. Bydd y rhain yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol flaenorol – h.y. hyd at 31ain Mawrth yn yr un flwyddyn ac yn edrych yn ôl flwyddyn cyn hynny (h.y. i 1af Ebrill yn y flwyddyn flaenorol) ac eithrio'r un cyntaf, a fydd yn cwmpasu cyfnod hwy yn dechrau ar y dyddiad mabwysiadu. Bydd yr adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod a bydd materion allweddol yn porthi adolygiad y Cynllun. Fel eithriad, fe all materion a nodir mewn Adroddiad Arolygu Blynyddol ysgogi adolygiad cynnar o'r Cynllun, naill ai'n rhannol neu'n llawn.

4.6 Hyd nes caiff y CDLl Amgen ei fabwysiadu, bydd Adroddiadau Arolygu Blynyddol ar gyfer cylch cyntaf y CDLl yn dal i gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref bob blwyddyn.

4.7 Bydd Adroddiadau Arolygu Blynyddol yn destun ymgynghori ag Aelodau a rhanddeiliaid allweddol. Bydd fersiynau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn dilyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

4.8 Fe all adolygiad ychwanegol o’r CDLl gael ennyn naill ai trwy gyrraedd pedair blynedd ar ôl mabwysiadu’r Cynllun sydd mewn grym ar hyn o bryd neu o ganlyniad i un neu fwy o faterion yn codi sy’n ddigon difrifol i ofyn adolygiad cynnar. Os digwydd y naill neu’r llall, bydd proses baratoi’r Cynllun yn ailddechrau, gyda gwaith dechreuol yn cynnwys paratoi Adroddiad Adolygiad ychwanegol, paratoi Cytundeb Cyflawni newydd a pharatoi tystiolaeth newydd neu fwy diweddar.

## 5 Cysylltiadau defnyddiol

5.1 Gallwch gysylltu â thîm y CDLl naill ai trwy ffonio 01437 764551 neu drwy e-bostio ldp@pembrokeshire.gov.uk

5.2 I gael rhagor o wybodaeth am adolygu'r CDLl neu ynghylch adolygu dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol, cysylltwch ag un o'r swyddogion canlynol yn nhîm y CDLl:

- Bob Smith
- Swydd wag
- Swydd wag
- Kane Thomas
- Tom Nettleship
- Eirian Forrest

## Atodiad 1 Profion cadernid

A1.1 Mae disgwyl i CDLl gael eu paratoi ar y cyd â phroses gynhwysfawr o ymgysylltu â'r cymunedau yn ardal y Cynllun ac awdurdodau cymdogol. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn mireinio'i ddewisiadau er mwyn cynhyrchu'r hyn a ystyria'n Gynllun cadarn, ar sail y dystiolaeth a gasglodd ac o ystyried ymateb cymunedau lleol a chymdogion.

A1.2 Wrth symud i Archwiliad, y rhagdybiaeth yw bod y Cynllun yn gadarn oni bai fod modd dangos nad yw hynny'n wir trwy dystiolaeth a gyflwynir i Arolygydd yr Archwiliad. Felly, bydd disgwyl i'r rhai sy'n gwrthwynebu CDLl ddangos pam nad yw'r Cynllun yn gadarn, yn eu barn, a beth fydd yn gorfod digwydd i'w wneud yn gadarn.

A1.3 Er mwyn rhoi sail i asesu a yw Cynllun yn gadarn neu beidio, mae Polisi Cynllunio Cymru a Llawlyfr y CDLl yn nodi tri phrawf cadernid.

A1.4 Yn ôl Llawlyfr y CDLl mae Arolygydd yr Archwiliad yn gorfod penderfynu bod CDLl yn 'gadarn' er mwyn iddo gael ei fabwysiadu. Bydd Arolygydd yr Archwiliad yn defnyddio'r tri phrawf cadernid i wneud y dyfarniad hwnnw mewn cysylltiad â'r Cynllun cyfan. Bydd yr Arolygwr yn ystyried gwrthwynebiadau unigol, ond yng nghyd-destun sut mae'r rhain yn rhoi sylw i gadernid y Cynllun at ei gilydd.

A1.5 Cyflwynwyd manylion cryno'r tri phrawf cadernid yn adran 1 y ddogfen hon ac mae Llawlyfr y CDLl yn ymhelaethu ar y rhain, fel y dangosir isod. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig newidiadau i brawf 1, er mwyn adlewyrchu ymddangosiad Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), i gyfeirio at y Cynllun Llesiant yn lle'r Cynllun Integredig Sengl a dileu'r cyfeiriad at Gynllun Gofodol Cymru (a fydd yn cael ei ddisodli unwaith y bydd FfDC yn bodoli).

A1.6 **Prawf 1: A yw'r Cynllun yn addas (h.y. a yw'n wmlwg bod y CDLl yn cyd-fynd â chynlluniau eraill)?**

Cwestiynau:

- A yw'n ystyried polisi cenedlaethol a Chynllun Gofodol Cymru (a ddisodlwyd bellach gan Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040)?
- A yw'n ystyried Nodau Ffyniant?
- A yw'n ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?
- A yw'n cyd-fynd â chynlluniau a strategaethau rhanbarthol a rhaglenni cwmnïau gwasanaethau?
- A yw'n cyd-fynd â chynlluniau awdurdodau cyfagos?
- A yw'n adlewyrchu'r Cynllun Integredig Sengl (CIS) neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (CRhPC)?

A1.7 **Prawf 2: A yw'r Cynllun yn briodol (h.y. a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth)?**

Cwestiynau:

- A yw'n benodol yn lleol?
- A yw'n rhoi sylw i'r materion allweddol?
- A oes tystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy i'w gefnogi?
- A oes modd dangos sail resymegol polisïau'r Cynllun?
- A yw'n ceisio diwallu anghenion a aseswyd a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy?
- A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?
- A gafodd y gwahanol ddewisiadau 'gwirioneddol' eu hystyried yn briodol?
- A yw'n rhesymegol, rhesymol a chytbwys?
- A yw'n gydlynol a chyson?
- A yw'n glir a chanolbwyntiedig?

A1.8 **Prawf 3: A fydd y Cynllun yn cyflawni (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol)?**

Cwestiynau:

- A fydd yn effeithiol?
- A oes modd ei weithredu?
- A yw'r darparwyr isadeiledd perthnasol yn ei gefnogi'n ariannol ac o ran cadw at amserlenni perthnasol?
- A fydd datblygiad yn ymarferol?
- A oes modd cyflawni'r safleoedd a neilltuwyd?
- A yw'r Cynllun yn ddigon hyblyg? Oes yna ddarpariaethau annisgwyl priodol?
- A yw dan arolygaeth effeithiol?

## Atodiad 2 Proffil poblogaeth ac aelwydydd a strwythur diwydiannol

Paratowyd ystod o dystiolaeth i gefnogi'r CDLl, gan gynnwys dadansoddiad demograffig manylach ac mae ar gael yn:

*https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/ldp2-evidence-base*

A2.1 Yn ôl rhagamcaniadau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn seiliedig ar 2018, cyfanswm poblogaeth Cymru yn 2018 oedd 3.1 miliwn, yn cynnwys 1.55 miliwn o ddynion ac 1.59 miliwn o fenywod. Mae poblogaeth Cymru'n cynrychioli 5.3% o gyfanswm poblogaeth Cymru a Lloegr.

A2.2 Yn Sir Benfro, cynyddodd y boblogaeth rhwng 2001 a 2018, o 114,131 i 127,700[20] .

A2.3 Yn 2011, trwch poblogaeth Sir Benfro oedd yr isaf ond tri yng Nghymru, sef 0.76 o drigolion arferol y cilomedr sgwâr.

A2.4 Roedd cynnydd hefyd yn nifer y lleoedd ar aelwydydd yn Sir Benfro rhwng 2001 a 2018, o 48,176 i 55,697. O edrych ar ffigur 2011, roedd 68.8% mewn perchenogaeth (gyda neu heb forgais), roedd 0.3% mewn rhanberchenogaeth (rhan mewn perchenogaeth a rhan ar rent), rhentwyd 15.7% gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig, rhentwyd 13.5% yn breifat ac roedd 1.7% yn byw heb dalu rhent.

A2.5 Rhagamcaniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru yw'r rhagamcaniadau sy'n seiliedig ar 2018.

A2.6 Cyfanswm yr aelwydydd amcangyfrifiedig yn y Parc Cenedlaethol yn 2018 oedd 10,517. Cyfanswm yr aelwydydd yn Sir Benfro y tu allan i'r Parc cenedlaethol oedd 45,179. Fodd bynnag, o gymharu arwynebedd y tir, daw darlun gwahanol i'r amlwg. Cyfanswm arwynebedd Sir Benfro yw 1590km$^2$, gyda 612km$^2$ o hwn yn y Parc Cenedlaethol. Mae hynny'n rhoi rhaniad ar sail arwynebedd o 61.51% oddi allan a 38.49% oddi mewn i'r Parc Cenedlaethol.

A2.7 Mae'r rhagamcaniadau poblogaeth is-genedlaethol yn seiliedig ar 2018 ar gyfer 2018 i 2028 yn Sir Benfro'n rhagweld cynnydd ym mhoblogaeth aelwydydd preifat y Sir o 1.9%.

A2.8 Nodir tystiolaeth fanylach mewn perthynas â rhagamcaniadau seiliedig ar 2018 yn nogfen dystiolaeth y CDLl Diweddariad Demograffig 2020 Edge Analytics.

[20] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-08/subnational-population-projections-2018-based-280.pdf

A.2.9 Isod mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar swyddi cyflogeion yn ôl diwydiant ar gyfer 2018. Mae hyn yn dangos strwythur diwydiannol Sir Benfro, ynghyd â ffigurau cymharol Cymru gyfan.

| Swyddi cyflogeion yn ôl diwydiant – Sir Benfro a Chymru | | |
|---|---|---|
| | Sir Benfro | Cymru |
| B – Mwyngloddio a Chwarela | 0.3% | 0.1% |
| C – Gweithgynhyrchu | 7.0% | 11.4% |
| D – Cyflenwi trydan, nwy, ager a thymheru | 0.6% | 0.6% |
| E – Gwasanaethau cyflenwi dŵr, carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adfer | 0.7% | 1.0% |
| F – Adeiladu | 5.8% | 5.1% |
| G - Masnach Gyfanwerthu a Manwerthu; Trwsio Cerbydau Modur a Beiciau Modur | 16.3% | 14.0% |
| H – Cludiant a Storfeydd | 4.1% | 3.3% |
| I – Gweithgareddau Llety a Gweini Bwyd | 16.3% | 8.0% |
| J – Hysbysrwydd a Chyfathrebu | 0.9% | 2.1% |
| K – Gweithgareddau Ariannol ac Yswiriant | 0.9% | 2.6% |
| L – Gweithgareddau Eiddo Diriaethol | 1.4% | 1.6% |
| M – Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | 4.7% | 5.6% |

| | | |
|---|---|---|
| N – Gweithgareddau Gwasanaeth Gweinyddol ac Ategol | 4.1% | 6.9% |
| O – Gweinyddiad Cyhoeddus ac Amddiffyn; Nawdd Cymdeithasol Gorfodol | 5.2% | 7.1% |
| P – Addysg | 8.1% | 9.1% |
| Q – Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol | 18.6% | 16.9% |
| R – Celfyddyd, Adloniant a Hamdden | 4.1% | 2.4% |
| S – Gweithgareddau Gwasanaethu Eraill | 1.6% | 1.8% |

(Ffynhonnell: Nomis – Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur)

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys data ar ffermio ac, felly, nid yw'r canrannau'n ystyried y sector hwn. Dangosodd data cynharach o 2011, sydd yn ystyried y sector hwn, bod 1.7% o swyddi cyflogeion bryd hynny ym myd ffermio ar hyd a lled Cymru, ond bod y ffigur yn sylweddol uwch yn Sir Benfro, sef 4.7% o swyddi cyflogeion.

A.2.10 Ym mis Mawrth 2020 (cyn Covid-19), roedd 76.2% o bobl oed gwaith mewn cyflogaeth yn Sir Benfro, o'i gymharu â 73.7% dros Gymru gyfan. Cyflog wythnosol crynswth yn 2019 yn Sir Benfro oedd £490.50, o'i gymharu â £540.70 dros Gymru gyfan. (Ffynhonnell: gwefan Nomis, 2016).

A.2.11 O ran gweithgarwch economaidd, mae'r sefyllfa am y cyfnod o fis Ebrill 2019 i fis Medi 2020 i'w gweld isod:

Cyflogaeth a diweithdra, mis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020

| Pawb | Sir Benfro (niferoedd) – 16 oed a hŷn | Sir Benfro (%) – 16 i 64 oed | Cymru (%) – 16 i 64 oed |
|---|---|---|---|
| Economaidd weithgar | 59,100 | 79.6 | 76.6 |
| Mewn cyflogaeth | 56,700 | 76.2 | 73.7 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflogeion | 43,900 | 60.5 | 63.6 |
| Hunangyflogedig | 12,400 | 15.3 | 9.6 |

(Ffynhonnell, Nomis – Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur)

A.2.12 Gellir gweld effeithiau uniongyrchol Covid-19 yn nata nifer hawlwyr y SYG rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020.

| Nifer hawlwyr ar gyfer hawliwr 16+ oed | Niferoedd yn Sir Benfro | Sir Benfro (%) | Cymru (%) | Prydain Fawr (%) |
|---|---|---|---|---|
| Mawrth 2020 | 2,225 | 3.1 | 3.1 | 3.1 |
| Ebrill 2020 | 4,160 | 5.8 | 5.4 | 5.1 |
| Mai 2020 | 4,480 | 6.3 | 6.1 | 6.4 |
| Meh 2020 | 4,330 | 6.1 | 6.0 | 6.2 |
| Gorff 2020 | 4,540 | 6.3 | 6.2 | 6.5 |

A2.13 Fel rhan o ailasesu syflaen dystiolaeth y CDLl i nodi a oes angen newidiadau penodol i'r Cynllun Adneuo i ymateb i Covid-19, mae'r Awdurdod wedi comisiynu diweddariad i'r Astudiaeth Economaidd Dwy Sir a fydd yn llywio ei asesiad.

## Atodiad 3 Adnoddau sydd ar gael a pheryglon i'r amserlen

A.3.1 Mae'n hollbwysig bod ymrwymiad cyllideb ac adnoddau staffio ar gael ar gyfer paratoi'r CDLl o ddechrau adolygu'r Cynllun. Isod mae manylion bras ymrwymiadau Cyngor Sir Penfro i'r dibenion hyn:

A.3.2 Y canlynol yw ymrwymiad cyllideb y CDLl (pan fo'n hysbys):

Cyfanswm Cyllideb Gwasanaeth Craidd y CDLl (Llinell Gyllideb y Cabinet) 2023/24: £398,900

Mae mynediad at adnoddau'r Cyngor wrth gefn ar gael hefyd ar gyfer costau'r Archwiliad.

A.3.3 Mae'r strwythur staffio canlynol yn ei le i gynnal paratoi'r CDLl:

Rheolwr Cynlluniau Datblygu (100% o'r amser, 5 diwrnod yr wythnos)

Prif Swyddog Cynllunio (100% o'r amser, 5 diwrnod yr wythnos)- swydd wag

Uwch-swyddog Cynllunio (100% o amser, 5 diwrnod yr wythnos - swydd wag

Swyddog Cynllunio (100% o'r amser, 5 diwrnod yr wythnos)

Swyddog Cynllunio (100% o'r amser, 4 diwrnod yr wythnos)

Swyddog Monitro Adran 106 (50% o'r amser, 5 diwrnod yr wythnos)

Swyddog Rhaglen – bydd nifer y dyddiau yn amrywio yn ystod gwaith Adolygu'r CDLl, yn codi i amser llawn yn ystod cyfnod Archwilio Cyhoeddus-swydd wag

A.3.4 Caiff y peryglon a allai fod i'r amserlen eu dangos yn y tabl isod. Bydd llithriant o fwy nag 8 wythnos yn gofyn newid ffurfiol i'r Cytundeb Cyflawni.

| *Mater all godi* | *Maint y perygl* | *Effaith all fod* | *Lliniaru posibl* |
|---|---|---|---|
| Toriadau cyllideb | Uchel | Llithriant y rhaglen | Ceisio cynnal cyllidebau drwy gydol y cyfnod paratoi a defnyddio adnoddau wrth gefn pe bai anawsterau eithriadol yn codi. |

| *Mater all godi* | *Maint y perygl* | *Effaith all fod* | *Lliniaru posibl* |
|---|---|---|---|
| Colli staff ac anawsterau wrth ailrecriwtio | Uchel | Llithriant y rhaglen | Ceisio cynnal niferoedd staff yn nhîm y CDLl drwy gydol y cyfnod paratoi, ceisio cymorth adrannau eraill o fewn y Cyngor a benthyciadau dros dro o ACLl eraill pe bai anawsterau eithriadol yn codi. |
| Ymddangosiad deddfwriaeth, polisi neu ofynion llywodraethu newydd yng Nghymru a / neu'r DU | Uchel | Llithriant y rhaglen | Rhoi sylw gydag adnoddau presennol ac o fewn terfynau goddefiant, os yw'n ymarferol. |
| Niferoedd annisgwyl o wrthwynebiadau i rannau penodol o'r Cynllun neu'r Cynllun cyfan | Cymedrol | Llithriant y rhaglen | Rhoi sylw gydag adnoddau presennol ac o fewn terfynau goddefiant, os yw'n ymarferol. |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio a / neu ymgyngoreion statudol yn methu ateb gofynion yr amserlen | Isel | Llithriant y rhaglen | Cadw cyswllt rheolaidd â'r Arolygiaeth Gynllunio ac ymgyngoreion statudol, gyda'r nod o osgoi'r fath hon o broblem ble bynnag y bo modd. Yn y pen draw, nid yw'r mater hwn dan reolaeth y Cyngor. |
| Methiant y Cynllun i fodloni'r profion cadernid | Cymedrol | Gwahardd neu newid rhan o'r Cynllun, neu fod angen cynnwys deunydd ychwanegol yn y | Cadw cyswllt rhwng Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cyngor a thîm y CDLl, i sicrhau bod gweithdrefnau a chynnwys y Cynllun yn |

| *Mater all godi* | *Maint y perygl* | *Effaith all fod* | *Lliniaru posibl* |
|---|---|---|---|
| | | Cynllun cyn ei fabwysiadu, dynnu'r Cynllun cyfan yn ei ôl | gadarn yn holl gyfnodau allweddol, gan gynnwys yn arbennig Adneuo, Cyflwyno ac Archwilio. |
| Oediadau cysylltiedig ag argraffu a / neu gyfieithu | Cymedrol | Llithriant y rhaglen | Sicrhau cynllunio unrhyw raffigwaith allanol ymhell o flaen llaw ac yn ôl amserlen a gytunwyd.<br><br>Rhybuddio'r cyfieithwyr yn gynnar o ofynion cyfieithiad Cymraeg o holl brif ddogfennau. |
| Oedi'n ymwneud â'r angen i gyflwyno dogfennau ar-lein mewn fformat hygyrch | Cymedrol | Rhaglen yn llithro | Mae hwn yn ofyniad newydd a bydd staff yn gweithio gyda thîm gwe CSP i sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni lle bynnag y bo modd. |
| Sialens gyfreithiol | Isel | Dirymu'r Cynllun mabwysiedig | Mae'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd yn fach, ond nid oes modd ei ddiystyru. Os caiff y Cynllun ei ddirymu drwy'r Llysoedd, mae gwaith ychwanegol sylweddol yn anochel. |
| Pandemig byd-eang | Uchel | Oedi sylweddol i broses y Cynllun gan gynnwys effeithiau ar adrodd, casglu a diweddaru tystiolaeth, ymgynghori, ymgysylltu â'r | Mae hyn wedi digwydd a'r ateb fydd adolygu'r amserlen i ganiatáu mwy o amser ar gyfer paratoi cynllun, ymgynghori, casglu tystiolaeth, ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithdrefnau archwilio. |

| *Mater all godi* | *Maint y perygl* | *Effaith all fod* | *Lliniaru posibl* |
|---|---|---|---|
| | | cyhoedd ac archwilio annibynnol | Gall cyfnodau clo pellach effeithio ar yr amserlen. |
| Cyhoeddi canllawiau newydd a/neu wedi'u diweddaru gan CNC sy'n ymwneud â maetholion ac agweddau eraill ar lygredd dŵr afonydd yn rhannau di-lanw afonydd ACA yn Sir Benfro | Uchel | Yr oedi sylweddol i broses y Cynllun yn sgil yr angen i gasglu tystiolaeth newydd ac o bosib i wneud newidiadau pellach i'r Cynllun i adlewyrchu cynnwys y canllawiau. . | Mae canllawiau presennol yn cael eu diweddaru'n barhaus ac mae canllawiau newydd yn dod i'r amlwg yn rheolaidd. Pan fydd hyn yn digwydd, mae angen asesu'r goblygiadau'n llawn i sicrhau bod y dyheadau datblygu a nodir yn y Cynllun yn parhau i fod yn gyflawnadwy. |
| Cyhoeddi canllawiau newydd gan CNC yn ymwneud â maetholion ac agweddau eraill ar lygredd dŵr yn rhannau llanw / morol afonydd | Uchel | Yr oedi sylweddol i broses y Cynllun yn sgil yr angen i gasglu tystiolaeth newydd ac o bosib i | Os cyhoeddir canllawiau o'r fath (sy'n debygol) bydd angen asesu eu goblygiadau'n llawn er mwyn sicrhau bod y dyheadau datblygu a nodir |

| *Mater all godi* | *Maint y perygl* | *Effaith all fod* | *Lliniaru posibl* |
|---|---|---|---|
| ACA yn Sir Benfro. | | wneud newidiadau pellach i'r Cynllun i adlewyrchu cynnwys y canllawiau | yn y Cynllun yn parhau i fod yn rhai y gellir eu cyflawni. Nid yw'r ansicrwydd ynghylch a fyddant yn cael eu cyhoeddi, ond yn hytrach pryd y byddant yn cael eu cyhoeddi a'r hyn y byddant yn eu dweud. |
| Gofynion staff cynllunio CSP i gyfrannu at y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru | Uchel | Oedi sylweddol i broses Cynllun os oes rhaid i staff gyfrannu at fwy nag un Cynllun sy'n dod i'r amlwg | Byddai hyn drwy staffio allanol a mewnol a sicrhau adnoddau gwaith ar CDS De-orllewin Cymru. Mae'r gwaith hwnnw'n dechrau nawr, ond mae llawer eto i'w wneud i sefydlu'r mecanweithiau cymorth gweinyddol, llywodraethu, ariannol, cyd-weithio a thechnegol i fwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw. |

## Atodiad 4 Geirfa

| *Byrfodd* | *Term llawn* | *Ystyr* |
|---|---|---|
| | Mabwysiadu | |
| AAB | Adroddiad Arolygu Blynyddol | Mae'r adroddiadau blynyddol hyn yn cloriannu sut mae'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn cael ei weithredu. Maent yn cynnwys diweddariad cyd-destunol ac adroddiad ar amrywiaeth o ddangosyddion a thargedau sy'n berthnasol i weledigaeth, amcanion, polisïau a chynigion y Cynllun. |
| | Safle Ymgeisiol | Safle a enwebwyd gan dirfeddiannwr, datblygwr neu aelod o'r cyhoedd fel un a allai gael ei neilltuo at ddiben penodedig, ei gynnwys o fewn Terfyn Anheddiad neu ei ddynodi at ddiben penodedig. Nid yw enwebiad yn gwarantu cynhwysiad yn y Cynllun i'r diben a awgrymwyd, ond bydd pob awgrym yn cael ei gloriannu wrth baratoi'r CDLl. |
| CCyG | Cynllun Cyfranogiad y Gymuned (ar gyfer CDLl 2) | Mae'r cynllun hwn yn ffurfio rhan o Gytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer CDLl 2. Mae'n egluro sut fydd y Cyngor yn cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid (gan gynnwys datblygwyr a busnesau) wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. |
| | Cytundeb Cyflawni (ar gyfer CDLl 2) | Mae'r datganiad cyhoeddus hwn yn cyflwyno amserlen y Cyngor ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Amgen. Mae hefyd yn cynnwys Cynllun Cyfranogiad y Gymuned (gwelwch uchod). Mae'n ymrwymo'r Cyngor i gynhyrchu ei CDLl Amgen yn ôl amserlenni a phrosesau ymgynghorol datganedig. |
| | Y Cynllun Adneuo | Drafft llawn y Cynllun Datblygu Lleol yw hwn, i'w gyhoeddi fel sail i ymgynghori â'r cyhoedd. Fe all y cyhoedd, cymunedau a rhanddeiliaid gofrestru cefnogaeth i'r Cynllun, neu wrthwynebiad iddo, ar yr adeg hon o'r broses. |

| *Byrfodd* | *Term llawn* | *Ystyr* |
|---|---|---|
| | Sylfaen Dystiolaeth | Gwybodaeth a data sy’n rhoi sail i baratoi gweledigaeth, amcanion, polisïau a chynigion CDLl. |
| ARhC | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Asesiad Priodol) | Mae hwn yn sgrinio ac asesu’n briodol unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol cynllun neu raglen a allai gael effaith andwyol ar gyfanrwydd safle o bwysigrwydd Ewropeaidd sy’n cael ei warchod yn ffurfiol am ei werth gwarchod natur. |
| | Adroddiad yr Arolygwr | Bydd hwn yn cael ei baratoi gan yr Arolygydd Annibynnol sy’n archwilio’r CDLl Amgen a gallai gynnwys argymhellion ar gynnwys y CDLl terfynol a fyddai’n gyfrwymol ar y Cyngor. Mewn geiriau eraill, bydd y Cyngor yn gorfod mabwysiadu’r CDLl fel y cyfarwyddwyd gan yr Arolygydd. |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol | Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno polisïau a chynigion y Cyngor ar gyfer datblygiad a defnydd arall tir yn awdurdodaeth gynllunio’r Cyngor (sef y Sir, heblaw’r Parc Cenedlaethol). Mae polisïau a chynigion mewn CDLl yn cwmpasu’r prif fathau o ddatblygiad. Mabwysiadwyd y CDLl cyfredol gan y Cyngor ar 28/03/13 a bydd yn aros mewn grym nes caiff y CDLl Amgen ei fabwysiadu neu gyrraedd ei ddyddiad darfod (ar 31/12/17), pa un bynnag sydd gyntaf. |
| CDLl 2 | Cynllun Datblygu Lleol 2 / CDLl Amgen | Yn y pen draw bydd hwn yn disodli’r CDLl cyfredol ac mae’n adolygiad llawn o’r Cynllun a fabwysiadwyd ar 28/02/13. Ei new ffurfiol yw’r CDLl Amgen, neu CDLl 2 er cyfleuster. |
| ACLl | Awdurdod Cynllunio Lleol | Yr awdurdod cyhoeddus sy’n gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu Lleol ac am benderfynu Ceisiadau Cynllunio mewn ardal benodedig. Yng Nghymru, bydd hwn yn Gyngor Sir, Cyngor Bwrdeistref Sirol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol. Yn Sir Benfro |

| *Byrfodd* | *Term llawn* | *Ystyr* |
|---|---|---|
| | | mae dau Awdurdod Cynllunio Lleol – Cyngor Sir Penfro oddi allan i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro oddi mewn i derfyn y Parc. |
| CRhPC | Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol | Cynllun Rheoli strategol yw hwn sy'n cydgysylltu a chyfuno darpariaethau cynlluniau, strategaethau a gweithrediadau eraill sy'n effeithio ar ddibenion a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol. |
| CSP | Cyngor Sir Penfro | Dyma enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n paratoi'r CDLl Amgen. |
| APCAP | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro'n darparu gwasanaethau cynllunio yn y rhan o Sir Benfro a ddynodwyd yn Barc Cenedlaethol, yn paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol ei hun ac yn penderfynu ei geisiadau cynllunio ei hun. Mae'n un o'r ymgyngoreion statudol a rhanddeiliaid allweddol ar gyfer CDLl y Cyngor. Bydd hefyd yn paratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (gwelwch uchod). |
| PINS (Cymru) a PCAC | Yr Arolygiaeth Gynllunio, Cymru a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru | Corff annibynnol yw hwn, y bydd un o'i Arolygwyr yn archwilio CDLl Amgen y Cyngor yn ffurfiol. Yr Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi'i disodli gan PCAC. |
| PCC | Polisi Cynllunio Cymru | Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. |
| | Strategaeth Ddewisol | Bydd y ddogfen hon yn cyflwyno cyfeiriad strategol bras y Cynllun Amgen. Bydd yn pennu'r cyd-destun rhanbarthol a lleol; yn cynnwys gweledigaeth ac amcanion; yn rhoi cysylltiadau â dogfennau statudol allweddol; yn crynhoi strategaeth y Cynllun arfaethedig; yn pennu graddfeydd cyffredinol datblygiadau tai a chyflogaeth y dyfodol; yn |

| *Byrfodd* | *Term llawn* | *Ystyr* |
|---|---|---|
| | | dynodi lleoliadau bras ar gyfer safleoedd anstrategol a meini prawf eu cynnwys; yn pennu cyfeiriad polisi gweithredu'r strategaeth; yn cynnwys diagram allweddol yn dangos y strategaeth ofodol ddewisol; ac yn esbonio strwythur a chwmpas tebygol y CDLl Amgen Adneuo, ynghyd â'r agwedd at gloriannu Safleoedd Ymgeisiol. |
| | Adroddiad yr Adolygiad | Mae hwn yn cyflwyno'r weithdrefn i'w dilyn wrth adolygu'r CDLl, ar sail asesiad o'r hyn a ystyriwyd, beth sydd angen ei newid a pham fod angen ei newid, ar sail tystiolaeth, llawer ohoni wedi'i chasglu ar y cyd â pharatoi Adroddiadau Arolygu Blynyddol CDLl cynharach. Fodd bynnag, ni fydd yn dweud sut mae'r CDLl yn mynd i gael ei newid, oherwydd bod hyn yn dod yn ddiweddarach ym mhroses baratoi'r Cynllun. |
| AoG, gan gynnwys AAS | Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol | Offeryn arfarnu polisi yw hwn wedi'i seilio ar amcanion datblygu cynaliadwy ac yn canolbwyntio ar ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd yn ymgorffori gofynion Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Daw gofyniad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol o ddeddfwriaeth Ewropeaidd, a droswyd yn Rheoliadau Cymru. Mae'n gofyn asesiad amgylcheddol o gynlluniau a rhaglenni arbennig, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i gynllunio a defnydd tir. |
| CIS | Cynllun Integredig Sengl | Cynllun a baratowyd ar y cyd oedd hwn yn cyflwyno agwedd bolisi eang at ddelio ag amrywiaeth o amcanion allweddol dros ddewis mawr o feysydd gwasanaeth. Roedd CIS Sir Benfro'n cwmpasu'r cyfnod 2013 i 2018 ac fe'i paratowyd gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Benfro a'i bartneriaethau cysylltiedig. Dogfen unigol oedd CIS a ddisodlodd gyfres gynharach o |

| *Byrfodd* | *Term llawn* | *Ystyr* |
|---|---|---|
| | | gynlluniau, yn benodol y Cynllun Cymunedol (Strategaeth Gymunedol), y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant a'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol. Erbyn hyn mae CIS wedi cael eu disodli gan Gynlluniau Ffyniant, yn eu tro, (gweler isod). |
| | Profion Cadernid | Er mwyn i CDLl gael ei fabwysiadu, rhaid i Arolygydd yr Archwiliad benderfynu ei fod yn 'gadarn'. Bydd Arolygydd yr Archwiliad yn defnyddio'r tri phrawf cadernid i wneud y dyfarniad hwnnw mewn cysylltiad â'r Cynllun cyfan. Bydd Arolygwyr yn ystyried gwrthwynebiadau unigol, ond yng nghyd-destun sut fydd y rhain yn effeithio ar gadernid y Cynllun at ei gilydd. Mae rhagor o fanylion natur y profion ym mharagraff 1.13 ac yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon. |
| CCA | Canllawiau Cynllunio Atodol | Caiff Canllawiau Cynllunio Atodol eu defnyddio i ymhelaethu ar agweddau penodol ar Gynllun Datblygu Lleol. Gallant fod yn seiliedig ar bwnc neu ar ffurf Cyfarwyddyd Datblygu ar gyfer safle neu ardal benodol. Nid yw CCA yn ffurfio rhan o'r CDLl, ond rhaid bod cyswllt amlwg rhyngddynt a'r CDLl ei hun. Yn amodol ar ymgynghori priodol a phenderfyniad y Cabinet, byddant yn dod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. |
| | Cyflwyno | Dyma'r cyfnod pan fydd y Cyngor yn anfon dogfennau'r CDLl eginol, yr AoG cysylltiedig (gan gynnwys AAS) ac ARhC ac eitemau allweddol o dystiolaeth i Lywodraeth Cymru. Yna bydd Llywodraeth Cymru'n hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio, fydd yn penodi Arolygydd i archwilio'r Cynllun yn annibynnol. |

| *Byrfodd* | *Term llawn* | *Ystyr* |
|---|---|---|
| TAN | Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) | Paratowyd y gyfres hon o nodiadau esboniadol gan Lywodraeth Cymru i ymhelaethu ar amrywiol agweddau ar Bolisi Cynllunio Cymru. |
| | Asesiad / Cynllun Llesiant | Mae'r hwn wedi disodli'r Cynllun Integredig Sengl ac mae'n dwyn ymlaen ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015, ar lefel Sirol. Fe'i paratowyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro (BGC) ac mae'n edrych ar yr hyn sy'n bwysig i bobl a chymunedau'r sir, yng nghyd-destun ffyniant. Cyhoeddwyd y fersiwn diweddaraf o Gynllun Llesiant Sir Benfro ym mis Mai 2023 |
| Deddf LlCD | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 | Mae'r Ddeddf hon yn ceisio gwella ffyniant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae disgwyl i gyrff cyhoeddus feddwl yn hirdymor, gweithio'n effeithiol gyda phobl leol, cymunedau a'i gilydd a gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig, di-dor. Sefydlwyd saith nod ffyniant gan y Ddeddf:<br>• Cymru lewyrchus;<br>• Cymru gydnerth;<br>• Cymru iachach;<br>• Cymru sy'n fwy cyfartal;<br>• Cymru o gymunedau cydlynus;<br>• Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;<br>• Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.<br>Mae'r Ddeddf yn ceisio rhoi sylw i heriau allweddol cysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldeb iechyd, swyddi a thwf. Yn sail i'r Ddeddf mae cysyniad datblygu cynaliadwy a dyletswyddau ffyniant. |